



WAUNFAWR

Tudalen 14



LLANBERIS

Tudalen 26



PLU NOW BACH

Tudalen 28

ECO'r Wyddfa

Rhif: 419
Mawrth 2014
Pris: 50c

Cân i Gymru 2014



Am yr ail dro, mae Gwilym Bowen Rhys o Fethel a'i fam Siân Harris, wedi llwyddo i gyrraedd ffeinal Cân i Gymru a gynhelir eleni ym Mhafiliwn Môn, Cae Sioe Môn, Nos Wener, Chwefror 28ain. Ddwy flynedd yn ôl bu'r ddau yn cydweithio i gyfansoddi'r gân 'Garth Celyn' yn adrodd hanes Llywelyn a Siwan. Eleni, cân am Hen-hen-hen-Dadcu Gwilym o'r enw 'Ben Rhys' sydd wedi cyrraedd y ffeinal.

Glöwr oedd Ben Rhys a fu farw yn 42 mlwydd oed, mewn ffrwydrad a achoswyd gan nwyon yn casglu ym Mhwl Glo Y Cymer yng Nghwm Rhondda, ar y 15fed o Orffennaf, 1856. Bu farw 114 o'r 156 o weithwyr a oedd yn y pwll ar y pryd. Mae'r gân yn disgrifio'r hanes ond hefyd yn tynnu ein sylw at yr anghyfiawnder fu pan gafwyd y perchnogion cyfalafol yn ddieuog am esgeulustod er gwaethaf y dystiolaeth am y diffygion yn niogelwch y pwll.

Ar hyn o bryd mae Gwilym yn gweithio yng Nghricieth, yn brentis i'r gwneuthurwr clocsiau Trefor Owen yn ogystal â bod yn brysur gyda'i gerddoriaeth, tra bod Siân yn athrawes yn Ysgol Brynrefail. Yn anffodus ni fydd Siân yn bresennol ar y noson gan y bydd yn Ffrainc yn sgïo gyda 58 o ddisgyblion yr ysgol!



Lois Angharad

Mae un o wynebau ifanc yr ardal wedi cychwyn ar swydd newydd fel cyflwynwraig Hacio - rhaglen newyddion a materion cyfoes i bobl ifanc ar S4C. Mae Lois Angharad o Benisarwaun yn 23 oed ac fe gafodd swydd yn adran materion cyfoes ITV Cymru yn syth wedi iddi gwblhau ei gradd mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Ar ôl gweithio yno am dri mis fe aeth i deithio'r byd gan ymweld a Thailand ac Awstralia cyn dychwelyd yn ol i ITV Cymru fis Ebrill y llynedd.

"Rwyf wastad wedi bod â diddordeb yn y newyddion er pan yn fach ac mae cael cyfle i weithio ar raglen materion cyfoes i bobl ifanc fel Hacio yn rhywbeth dwi wir yn ei fwynhau," meddai Lois.

"Rwy'n hoffi'r sialens o chwilio am straeon a chael dod i adnabod gymaint o bobl wahanol."

Mwy ar dudalen 3.



Gethin

Llun gan Stephen Rees

Meddai Gethin: Dwi'n fyfyrwr Cerddoriaeth yn fy ail flwyddyn ym Mangor erbyn hyn. Rydw i'n ymddiddori mewn cyfansoddi erioed ac yn canolbwyntio ar gyfansoddi ar gyfer ffilm a theledu yn y Brifysgol. Mae Ifan, y cyfansoddwr arall, hefyd yn astudio'r un cwrs a fi, a dyna sut y cychwynom ni gyfansoddi gyda'n gilydd.

Drwyfy adeg yn Ysgol Bethel ac Ysgol Brynrefail, dwi wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol, corau, sioeau cerdd ac yn y blaen, a dwi'n falch iawn fy mod wedi cyrraedd rownd derfynol Cân i Gymru gan ei fod yn goron ar yr holl brofiadau a gefais yn y gorffennol. Mae fy nyled yn fawr i'r ysgolion gan fy mod wedi magu fy hyder o ganlyniad i'r profiadau a gefais ganddynt.

Mae Ifan yn brif leisydd i'r grŵp 'Sŵnami' sydd yn boblogaidd iawn yn y sîn gerddorol, felly bydd yn gyfle gwych i mi fagu profiad ar lwyfan mawr gyda cherddorion profiadol.

Mae'r gân, 'Dydd yn Dod', yn gân hwyliog ac ysgafn sydd yn annog unrhyw un sydd yn teimlo'n isel i sylweddoli y bydd dyddiau gwell i ddod. Rydym yn gobeithio y bydd pobl o bob oedran yn gallu mwynhau'r gân - ac rydym yn annog unrhyw un sydd yn hoff o'r gân i bleidleisio amdani ar y noson!

ECO'r Wyddfa

RHIF 419
Mawrth 2014
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Ebrill	Mawrth 16	Mawrth 27	Cwm y Glo
Mai	Ebrill 20	Mai 1	Deiniolen

LLYTHYRAU

Hiraeth y Cymro.

Rai blynyddoedd yn ôl bellach, pan oedd trigolion pentrefi dalgylch Eco'r Wyddfa (nad oedd wedi ei eni bryd hynny) yn 'nabod ei gilydd yn weddol dda, a bysys Crosville yn uno rhai o'r pentrefi â'i gilydd, yr oedd trafaelio ar y bws dybl-dec am 10 nos Sadwrn o'r Maes yng Nghaernarfon i Lanberis yn 'ddigwyddiad' o gryn bwys!

Pam felly?

Blynyddoedd y rhyfel oedd y blynyddoedd hynny ac, o dro i dro, gwelwyd ambell lanc ar leave yn mwynhau yr awyrgylch swnllyd, cymdeithasol a chyfeillgar yn sgil gwydryn neu ddau, neu dri o bosibl. Ond yr oedd digwyddiad o gryn bwys yn digwydd bob nos Sadwrn cyn bod y 'bws 10', fel y'i gelwir, wedi cyrraedd Pontrug - roedd rhywun yn sicr o daro anthem y bws deg i Lanberis, sef 'Hiraeth y Cymro', neu i ddefnyddio'r teitl poblogaidd 'Trigo'r wyf mewn gwlad estronol'.

Heb os, yr oedd y gân hon yn hynod boblogaidd yn yr ardal bryd hynny, ac alaw Robert Lloyd Roberts, Brynrefail (Ffrwd Alaw) a geiriau Nellie Holland, Llanberis, ar wefusau pawb bron.

A dyna dristwch y cyfan!

Mae cenedlaethau o bobl wedi tyfu i fyny ers hynny nad ydynt yn gyfarwydd â'r gân hon, a'r syndod i mi yn bersonol - (ac rwyf yn cyfeirio fy sylwadau at arweinyddion y myrdd partion canu sydd bellach yn bodoli yn yr hen fro) yw nad yw y gân ymysg repertoire yr un parti bellach. Pam 'sgwn i?

Yn bersonol, pan ar leave o'r RAF adeg y rhyfel, yr oedd uno yn y canu ar bws dybl-dec i Lanbêr yn bleser ac, wedi disgyn o'r bws ym Mhenllyn a chofio clywed dyblu'r gân fel yr anela'r bws am Graig yr Undeb, yn destun atgof o dro i dro. Tybed fydd modd adfywio'r hen gân a fu'n anthem yr ardal cyhyd?

Gobeithio'n wir y bydd hyn o eiriau yn dwyn ffrwyth!

Rol Williams
Waunfawr

Lleifior, Gernant, Llanrhaeadr. LL16 4YN
wayne.roberts1058@btinternet.com
01745890845/07432717646

Annwyl Gyfeillion

Y mae'n fwriad gennyf arwain taith i Batagonia yn hydref 2015, blwyddyn dathlu 105 o flynyddoedd glanio'r Mimosa.

Yr asiantaethau yng ngofal y daith fydd Grosvenor Travel ac Andes-Celtig a hynny yn sicrhau gorchudd Atol, sy'n angenrheidiol ar daith mor bell.

Canolbwynt y daith fydd ymweld â'r Eisteddfod a'r Gymanfa, gan gychwyn y daith ym Muenos Aires a gorffen yn Mariloché. Taith ar draws y paith, ymweliad â Threlew, Gaiman, Cwm Hyfryd, Trevelin, Esquel a thaith hefyd ar y La Trochita (Patagonian Express), Noson yn y Tango a nosweithiau cymdeithasol yng nghwmni'r brodorion lleol. Hyderaf yn fawr y medrwn sicrhau gwasanaeth Andres Roberts fel tywysydd ym Mhatagonia, gŵr a'i wreiddiau yn ddwfn a'i wybodaeth yn helaeth.

Y bwriad hefyd fydd, os oes yna ddigon o ddiddordeb, creu Côr i gystadlu yn yr Eisteddfod, a hynny os bydd yn ymarferol i gasglu pawb at ei gilydd ymlaen llaw.

Ar hyn o bryd enwau yn unig y rhaid sydd â diddordeb sydd ei angen ac wedyn fe fyddaf yn gallu gyrru manylion a phrisiau i bawb. Cwmni Grosvenor Travel fydd yn casglu'r arian a hefyd yn trefnu'r yswiriant i'r rhai sy'n dymuno hynny.

Byddai'n braf cael criw oddeutu 30 mewn nifer.

Unrhyw fanylion pellach neu gwestiynau cysylltwch efo fi ar y ffôn neu'r e-bost.

Cofion
Wayne, Parchedig S. Wayne Roberts

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Mrs Joan Williams, Llwyfor, Llanrug; Mr John Ellis Morris, Rhiwen, Deiniolen.

£10: Er cof am Lizzie Pugh, 6 Stryd Siarlot, Llanberis; Sandra Jane Davies, Bryn Tirion, Ffordd Tŷ Du, Llanberis; Gwynedd Owen (Fess), 10 Maes Derlwyn, Llanberis; Mrs Marian Williams, Ffordd Deiniol, Deiniolen.

CYLCH

LLENYDDOL CAERNARFONA GWYRFAI:

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon ar nos Fawrth, 18ed Mawrth, am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd Bedwyr Rees, enillydd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg, 2012 a'i destun fydd 'Y broses o greu drama ar gyfer y llwyfan a'r sgrin fach'. Croeso cynnes i bawb.

Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

Y Lolfa, Talybont
Ceredigion
SY24 SHE
sonia@yloffa.com

Cyfle i Hyrwyddo Eich Busnes

Os ydych am hyrwyddo busnes neu gymdeithas newydd cofiwch fod modd gwneud hynny am ddim drwy ychwanegu eich manylion i Gyfeiriadur Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur yn ymddangos yn holl ddyddiaduron Y Lolfa ac ar ein gwefan. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dilyn y ddolen yma: www.yloffa.com/cyfeiriadur a llenwi ffurflen ar-lein syml. Fel arall mae croeso i chi fy ffonio ar 01970 832304 neu ddanfon e-bost i sonia@yloffa.com. Mae croeso i chi hefyd wirio gwybodaeth am sefydliad sydd yn y cyfeiriadur yn barod yn yr un modd.

Pob hwyl
Sonia Hughes

Swn Y Gwynt, 11 Mor Awel,
Penygroes
LL54 6RA

Deffra a sawra'r coffi

Mae rhaid bod Golygydd yr Eco yn byw mewn gwynfyd rhyfedd iawn. Yn rhifyn mis Rhagfyr mae'n cyhoeddi bygythiad taer i bob cyfrannwr i'r Eco i ymatal rhag gyrru unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r Nadolig ar gyfer y rhifyn nesaf o'r Eco. 'Ni chant eu cyhoeddi!' Yna yn rhifyn mis Chwefror mae'n suddo i wynfyd coeglyd i achwyn yn erbyn y llif o luniau ac erthyglau a yrrwyd i'r Eco oedd yn gysylltiedig â rhywbeth a elwir 'Nadolig'.

Os ydw i'n cofio yn iawn y dyddiad olaf i dderbyn erthyglau ar gyfer rhifyn Chwefror oedd 19eg Ionawr. Gan fod ysgolion ar wyliau hyd , eleni , dydd Llun 6ed Ionawr, yr oedd deg diwrnod gwaith ganddynt i hel erthyglau cyfoes ar gyfer eu gosod yn yr Eco. I mi wybod does dim byd tyngedfennol yn digwydd ar ddechrau mis Ionawr. Y mae pob ysgol, cymdeithas ac yn y blaen yn gyrru erthyglau am ddigwyddiadau sydd wedi cymryd lle yn ddiweddar. Yn eu gorffennol fel petai.

O ia ! Dwi'n cofio rŵan. Y peth pwysig ddigwyddodd yn fy mywyd innau yn y mis rhwng 19eg Rhagfyr a'r 19eg o Ionawr oedd rhywbeth a elwir 'Nadolig'. Ond Shhhhh! Peidiwch â gadael i Olygydd yr Eco glywed oherwydd mae'n cynllunio gwahardd pob cartref, ysgol, cymdeithas, capel ac eglwys rhag dathlu'r Nadolig yn 2014.

Wel dim Nadolig a bydd dim lluniau nac erthyglau dathlu ym mis Rhagfyr, Ionawr na Chwefror – 'simples'

Yn ddiffuant,
Emyr Humphreys Jones

Cefnogwch ein hysbysebwr



Lois Angharad

Un o'r uchafbwyntiau iddi hyd yma oedd cael cyfnewid â Jamie Roberts a Mike Phillips ym Mharis, a gweld sut mae bywyd i ddau o sêr rygbi Cymru yn Ffrainc.

Er ei bod yn byw yng Nghaerdydd ers 2009 mae'n dweud nad oes unman yn debyg i adre.

"Mae cael mynd yn ôl i Wyddfor, Penisarwaun yn rhywbeth dwi'n edrych mlaen ato am wythnosau cyn mynd," meddai. "Dwi wedi bod yn byw yng Ngwyddfor ers i mi gael fy ngeni a dwi'n ceisio dod adra yn

aml achos mi fydda i'n hiraethu am goginio dad. Dwi wrth fy modd cael gweld ffrindiau ysgol a chael dipyn o awyr iach Eryri. Yr olygfa o'r Wyddfa o'n tŷ ni ydi un o olygfeydd gorau'r byd yn fy marn i - yn enwedig yr adeg yma o'r flwyddyn pan mae'r copa dan eira."

Mi fydd wyneb Lois yn siwr o fod yn un y byddem yn dod yn fwyfwy cyfarwydd a fo dros y blynyddoedd wrth i'r gyflwynwraig ifanc yma rhoi ei marc ar y byd newyddiadurol. Llongyfarchiadau a phob hwyl i ti ar dy swydd newydd gan bawb o fro yr Eco.



Noson Hwyl!!

**Noson i godi arian at Tŷ Gobaith-
Hosbis plant.**

NOS SADWRN Y 15^{FED} O FAWRTH

**Yn Glyntwrog Llanrug am
8:00y.h**



Shafio pen a
barf lfor!



Canu Karaoke!



HOSBIS PLANT

**Tŷ Gobaith
CHILDREN'S HOSPICE**

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

YMWELIAD CARWYN JONES



I gydnabod haelioni y Cynulliad gyda grant sylweddol i adnewyddu Neuadd Goffa Bethel, gwahoddwyd y Prif Weinidog Carwyn Jones i'r pentref. Ar wahan i bwyllgor gweithgar y neuadd gwahoddwyd aelodau o wahanol gymdeithasau'r pentref ynghyd â chynghorwyr cymuned y pentref. Hefyd yno i'w llongyfarch oedd cynhyrcholwyr o'r cwmni adeiladu, a greodd adeilad i'w ganmol mewn amser cyfyng iawn. Yno hefyd roedd cynhyrcholwyr o'r Cyngor Sir. Gyda balchder yr arweiniodd Cadeirydd Pwyllgor Llywio y Neuadd, Sion Jones, y Prif Weinidog o gwmpas yr adnodd gwerthfawr.

Hefyd yn bresennol oedd disgyblion Bl.6 Ysgol Bethel. Bydd hwn yn ddiwrnod i gofio iddynt. Croesawyd Carwyn Jones gyda'r disgyblion yn canu anthem De'r Affrig yn yr iaith frodorol – “Duw, gadwo Affrica”.

Wedi'r canu, cafodd y disgyblion gyfnod i holi'r Prif Weinidog.

Holwyd ynglyn â sawl maes gan gynnwys addysg, yr iaith Gymraeg, allfudo o'r ardaloedd gwledig ac hefyd siawns tim rygbi Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Yr oedd Carwyn Jones yn gartrefol ei sgwrs, er caed ambell i wên pan roedd rhaid 'cyfieithu' ambell i 'air sowth'.

Manteisiodd ambell unigolyn ar y cyfle i gael sgwrs anffurfiol, a chododd ambell un fater o'r Cynllun Datblygu arfaethedig, yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus llwyddianus diweddar.

Ni fuasai unrhyw ymweliad yn gyflawn heb luniaeth, a chafwyd gwledd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor.

Diwrnod hanesyddol i'r pentref, ac roedd Gwynfor Jones yno i groniclo'r cyfan gyda'i gamera fideo. Efallai cawn noson yn y neuadd gyda Gwynfor yn y dyfodol i ail fyw y cynnifer achlysuron mae wedi eu cofnodi. Byddent o fudd i bentrefwyr y dyfodol mae'n siwr.

Merched y Wawr Chwefror

Yn anffodus oherwydd y storm nos Fercher, Chwefror 12, penderfynwyd peidio cynnal cyfarfod y mis o Ferched y Wawr.

Bydd y cinio Gŵyl Dewi ar y **Sed Mawrth** yn y Caban Brynrefail, ac edrychwn ymlaen i groesawu Gethin Griffith atom. Roeddem yn falch o glywed fod Gethin wedi mynd mlaen i berfformio yn Cân i Gymru nos Wener, 28ain Chwefror.

Bydd y bws i'r swper yn cychwyn am 7 o'r gloch o Penrhos ac yn codi yn y mannau arferol. Mae trefniadau'r noson i'w gweld ar wefan – www.mywbethel.org hefyd lluniau'r criw aeth i'r noson bowllo deg yn ddiweddar.

Diolch Dymuna Gareth, Carol, Iolo a Huw, 8 Stad y Rhos, ddiolch yn ddiffuant iawn i deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod y cyfnod y bu Iolo yn yr ysbyty, ac wedi dod adref. Cafwyd llu o alwadau, cardiau, anrhegion a negeseuon a dymuniadau da. Diolch i chi i gyd am eich

cefnogaeth i ni fel teulu.

Cymdeithas Lenyddol

Cafodd yr aelodau gwmni William Roger Jones yng nghyfarfod mis Ionawr, ac yn dilyn croeso cynnes iddo ac i bawb oedd yn bresennol gan Lywydd y Noson, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar hanes ei ewythr, sef yr actor Hugh Griffith. Yn dilyn marwolaeth Hugh Griffith casglodd ei nai luniau a phapurau o'i eiddo a phleser oedd iddo gael darllen drwyddynt a'u didoli. Pinacl unrhyw actor yw derbyn tarian yr Oscar ac, wrth gwrs, daeth enwogrwydd Hugh Griffith i'r byd fel enillydd yr Oscar pan yn 48 oed, a hynny yng nghanol ei yrfa, a dyma'r cyfnod pan y daeth yn fyd enwog. Derbyniodd yr anrhydedd yn dilyn ei ymddangosiad fel actor cynorthwyol yn y ffilm 'Ben Hur'. Dangosodd dwy Dystysgrif am yr enwebiad fel actor cynorthwyol ac hefyd roedd wedi dod â tharian yr Oscar, oedd dros hanner cant o flynyddoedd oed, i bawb ei gweld a'i chyffwrdd!

Talwyd gair o ddiolch gan Dr. J.

Elwyn Hughes i'r siaradwr am rannu ei atgofion ac am noson oedd wedi plesio pawb yn y gynulleidfa.

Clwb Bro Bethel Wrth groesawu pawb i gyfarfod mis Chwefror cyfeiriodd y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, at ddwy o'r aelodau oedd wedi cael profedigaethau yn ddiweddar, sef Beti Owen oedd wedi colli chwaer a Maud Williams oedd wedi colli nith, - cydymdeimlwyd yn fawr â'r ddau deulu. Ar nodyn hapusach llongyfarchwyd Eirlys a Brian Sharpe ar ddathlu Priodas Aur. Diolchwyd i bawb am gasglu talebau WISH y Daily Post ac edrychwn ymlaen i dderbyn rhywfaint o'r arian sydd ar gael. Hysbyswyd yr aelodau am nifer o weithgareddau gan Age Cymru ac atgoffwyd pawb mai yn yr Ysgol y bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 3ydd, am 1.00 o'r gloch.

Cafodd yr aelodau orig ddifyr iawn yng nghwmni Geraint Huws Roberts a'i destun oedd 'Hen Gymeriadau'. Roedd yn ddyledus iawn i'w fam am gyflwyno hen gymeriadau iddo a chawsom hanesion o

gymeriadau Capel ac Ysgol Sul Glasgoed, straeon o'r Chwareli, gan sôn am ei Daid yn cychwyn gweithio yn Chwarel Dinorwig yn 9 oed, hanesion wedyn o 'Steddfod Llanrug a honno am bedair noson. Wrth ddod â'r sgwrs i ben roedd yn annog pawb os oes storiâu ganddynt i'w cadw a'u trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am brocio'r cof gyda chymeriadau oedd yn adnabyddus i lawer oedd yn bresennol gan Geraint Elis.

Ysgol Sul y Cysegr Diolch i Heledd a Gwenllian am drefnu i godi arian tuag at Ymchwil y Galon. Cafodd plant yr Ysgol Sul gyfle i brynu cacen a diod yn ddiweddar. Llwyddwyd i godi, hyd yn hyn, £144.90 a bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i Bwyllgor Arfon a'r Cylch o Sefydliad Prydeinig y Galon. Mae 'na lawer o bobl yma ym Methel yn dioddef anhwylder ar y galon ac wedi manteisio ar ffrwyth ymchwil yr elusen am flynyddoedd. Hoffai Heledd a Gwenllian ddiolch yn fawr iawn i'r plant ac i'r oedolion am gefnogi wrth gyfrannu at y stondin.

HAF yn hel o hyd!



Haf Thomas yn cyflwyno sic am £1,050 i Manon Williams (Metron Ansawdd a Pherfformiad Proffesiynol) a Linda Hughes (Cydllynydd Gwybodaeth a Chefnogaeth Macmillan).

Ydy, mae Haf Thomas, Buarthau Llanrug yn dal wrthi'n brysyr yn codi arian. Choelia i fyth nad hi yw un o gymeriadau mwyaf gwerthfawr yn ein bro. Fe gychwynnodd ar y gwaith elusennol yn 1995 gyda mudiad UNICEF. Dewisodd elusen wahanol bob blwyddyn ers hynny a dyma hi newydd gyflwyno £1050 i Gronfa Macmillan. Ar ôl bron i ugain mlynedd o ymdrech mae Haf wedi casglu dros £45,000. Dyna i chi gamp! Gellir gweld yr ymdrechion ar y rhestr gynhwysfawr sydd yma.

Rhaid dweud fod Haf wedi gwneud hyn mewn llawer dull a modd. Mae'n hoff iawn o nofio, dawnsio llinell, snwcer, carioci a gwneud cardiau. Cafodd gefnogaeth frwd gan deulu, ffrindiau a chydabod ar hyd y blynyddoedd. Mae'n gweithio yng Nghyngor Sir Gwynedd lle mae ganddi lu o ffrindiau. Mae hi'n casglu yn eu plith hwy o bryd i'w gilydd fel y gwnaeth i Blant mewn Angen rhwng 1999 a 2003.

Pan yn ei chwmmi yn cyflwyno'r sic yn Ysbyty Gwynedd, sylweddolais pa mor boblogaidd yw Haf. Roedd pawb yn ei hadnabod a hithau hefyd yn gwirioni wrth gyfarch cymaint o ffrindiau mae wedi ei wneud dros y blynyddoedd. Roedd Ann (mam Haf) yn dweud na fel'na mae hi drwy'r amser. Mae hi wrth ei bodd yn mynd i gyngherddau, sioeau cerdd ac mae'n ffan mawr o Bryn Terfel, Westlife a'r Eisteddfod Genedlaethol. Ydy, mae Haf yn byw a mwynhau bywyd llawn a hapus. Mae ganddi bersonoliaeth hyfryd, calon fawr garedig ac mae hi'n llawn hwyl bob amser. Er yr holl werthfawrogiad a chanmoliaeth a ddaw i'w rhan, mae'n derbyn y cyfan yn wylaidd a gostyngedig iawn. Os

1995	UNICEF	£52.00
1996	GOBAITH	£50.00
1997	YSBYTY ERYRI	£55.00
1998	TY ENFYS	£66.00
1999	WARD ALAW [Nofio noddedig]	£1,500.00
2000	YMCHWIL Y GALON	£170.00
2001	APEL AFGANISTAN	£507.00
2002	CHOGAETH I'R ANABL	£800.00
2003	CWN TYWYS GWYNEDD	£5,000.00
2004/2005	AMBIWLANS AWYR Cymru	£22,200.00
2006	APEL YSGOL 4 ENDALAR	£7,150.00

CYFANSWM CASGLIAD PLANT MEWN ANGEN O GWMPAS Y CYNGOR 1999-2003

		£1,585.00
2007	ER COF AM BRENDA	£300.00
2008	CRONFA PARKINSONS ARFON A MON	£1,200.00
2009	CYMDEITHAS STROC MON AC ARFON	£1,220.00
2010	CRONFA ELLIW LLWYD OWEN [ARENNAU CYMRU]	£500.00
2011	APEL 'STEDDFOD YR URDD LLEISIAU LLANBABS	£150.00 £40.00
2012	HOSBIS YN Y CARTREF	£525.00
2013-	CYMORTH CRISTNOGOL BORE COFFI "EFE" 2014	£30
2014	CRONFA MACMILLAN CWN TYWYS GWYNEDD MEDDYGFA WAUNFAWR A LLANRUG	£1050.00 £700

CYFANSWM £45,086.00

ydy hi'n gallu helpu rhywun arall – yna mae Haf yn hapus.

Rhaid i mi gyfeirio at un o gyfresi gorau wnaed ar S4C llynedd sef Taith Fawr y Dyn Bach. Ac ar un rhaglen arbennig iawn, fe fu Haf yng nghwmni James Lusted. Roedd y sgwrsio rhyngddynt yn gynnes a naturiol, gyda James yn rhyfeddu at holl ymdrechion Haf. Hithau eto, gan wenu, yn hollol ddiymhongar. A'r cyfan i gyd mewn iaith gyfoethog a graenus oedd yn gwneud i ni ymfalchïo ynddynt.

A beth am 2014? Doedd Haf ddim wedi dewis elusen pan welais hi ddiwethaf. Ond d'wi am wneud apêl drosti. Tybed na all pob un ohonom ei chefnogi? Beth am gasglu darnau arian mewn jar bach a throsglwyddo'r cynnwys i Haf ddiwedd y flwyddyn. Neu beth am fore coffi a gwahodd Haf yno gyda'i chardiau cyfarch.

Diolch o galon i ti Haf am dy holl ymroddiad i bobl eraill. Dal ati a gobeithio y gwnawn ninnau fanteisio ar y cyfle i dy gefnogi mewn rhyw fodd

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

**SWIGOD
A
SEBON**

**Gwasanaeth
Golchi
a Smwddio
Altro • Ailwnïo**
**54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088**

**TM
JONES**
SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

**SYMUDD
A CHADW**
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

**SWYDDFA POST
BETHEL**
Ffôn (01248) 670261
**COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR
YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.**
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

**LLUN-SADWRN
5.30am-7.30pm
DYDD SUL
5.30am-3pm**



Newyddion yr Ysgol

Rydym ni yn falch o gael Miss Jones yn ôl yn y dosbarth efo ni ar ôl iddi fod yn sâl cyn y Nadolig. Mae Miss Ceri Wyn yn helpu yn y dosbarth bob dydd Mercher a dydd Iau ac mae Miss Tesni Jones o'r Brifysgol yn dosbarth Peris.

Roedd Dosbarth Marchlyn wedi bod yn brysur cyn y Nadolig ar waith ar y pentref. Rydym wedi ysgrifennu llythyr i'r Cyngor yn gofyn i rywun ddod i siarad efo ni am beth allwn wneud i wella ein pentref. Yn anffodus nid ydym wedi clywed dim eto! Rydym yn siomedig.

Mae plant bach Dosbarth Peris wedi bod yn gwneud gwaith ar 'ddathliadau'. Rydym wedi bod yn genfigennus gan eu bod wedi cael blasu bwydydd gwahanol wledydd. Daeth Peter a Selina o Fwyty Tsieiniaidd Llanberis atynt i sôn am y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd. Roedd Mrs Oliver wedi paratoi 'haggis, neeps a tatties' i ddathlu pen-blwydd Robert Burns. Roedd Mrs Bayley wedi paratoi cawl i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Diolch yn fawr iawn i Mr. Dafydd Griffiths (tad Dion) ac i Gyfeillion yr ysgol. Mae nhw wedi cyfrannu arian i'r ysgol gael prynu ipads. 'Da ni wrth ein bodd yn cael eu defnyddio i wneud gwaith. Diolch yn fawr.

Disgyblion Dosbarth Marchlyn




Gwellhad Buan. Dymunwn wellhad buan i Mrs Beryl Parry, Hebron ar ôl triniaeth i'w phenglin yn Ysbyty Gwynedd.

Undeb y Mamau.

Pnawn Mawrth Ionawr 21ain cafwyd gwasanaeth yn Eglwys Santes Fair. Yn ystod y gwasanaeth goleuwyd canhwylau gan Iris, Dorothy ac Auriel. Yr organyddes oedd Iola. Wedi'r gwasanaeth trafodwyd materion oedd i law a chafwyd lluniaeth wedi ei drefnu gan Joyce a Pat. Enillwyd y raffl gan Iris. Terfynwyd trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Pnawn Mawrth Chwefror 18fed cafwyd gwasanaeth yn Festri Santes Mair. Croesawodd yr arweinydd, Hilda Orritt bawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gweddi Undeb y Mamau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth nifer o aelodau. Darllenwyd cofnodion o gyfarfod Ionawr gan Auriel a thrafodwyd rhai materion. Mae Dorothy Jones wedi cytuno i gymryd swydd trysorydd. Y wraig wadd oedd Carol Cooper, Llywydd y Ddeoniaeth, a chafwyd pnawn pleserus yn ei chwmni. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Marjorie, Dorothy, Gwyneth a Hilda. Rhoddwyd y raffl gan Katie Williams. Diolchwyd i'r gwsteion gan Auriel ac i Carol Cooper gan Hilda. Terfynwyd trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 18fed.



FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser



Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups



Erddedfa Eiddoedd Eiddoedd Eiddoedd
Europe & Wales Investing in your future
European Regional Development Fund



Supporting voluntary and community groups
wcva

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Sefydliad y Merched Bydd Cinio Gŵyl Ddewi y gangen eleni ar Fawrth Sed yng Ngholeg Menai. Ar Fawrth 20fed bydd yr aelodau yn ymweld â Gweledfa, yma ym Mrynrefail - cartref Moira Ellis i weld arddangosfa o'i gwaith llaw.

Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno â'r gangen a dod yn rhan o'r digwyddiadau a'r sgysiau amrywiol mewn cwmni hwyliog.

Mae'r Cwrs Coginio i famau ifainc yn mynd ymlaen yn dda iawn yn Llanberis. Gobeithir dechrau cwrs coginio i ddynion yn fuan. Os oes diddordeb gennych chi rai o'r dynion hynny sy'n byw ar eich pen eich hunain ac am ddysgu sgiliau coginio am bris rhesymol, cysylltwch â Mrs Pat Jones ar 01286 870589.

Gwellhad Buan Dyna yw ein dymuniad i Dilys Evans, Min y Don, wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn anhwylder yn ddiweddar.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Henaduriaeth Arfon Mewn cyfarfod o'r Henaduriaeth a gynhaliwyd ym Methania, Y Felinheli, ar Chwefror 18fed, yn dilyn ei haraith ymadawol fel Llywydd yr Henaduriaeth am 2013 cyflwynodd Lowri Roberts Williams y llywyddiaeth i'r Parch Gwenda Richards, Caernarfon.

Oedfaon Mawrth

- 2 am 5.30: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
 - 9 am 5.00: Mr J O Roberts, Bethesda
 - 16 am 5.30: Mr Huw Fôn Roberts, Caergybi
 - 23 am 5.30: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon
 - 30 am 5.30: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
- Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd Gwahoddir yn gynnes chwiorydd Eglwysi Llanrug i ymuno yn oedfa y Dydd Gweddi Blyneddol a gynhelir bnawn Gwener, Mawrth 7fed, yn yr Ystafell Gynhadledd a bydd lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu ar y terfyn ym Mwyty Caban.

Damwain echrydus Bu farw Mr Robert Thomas, Trem Arfon, yn dilyn damwain sobr pan gafodd ei daro gan goeden yn ystod y storm ar Chwefror 12fed pan oedd, gyda'i wraig Jean, yn casglu'r ieir i fan diogel. Yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd cafodd Bob ei symud i ysbyty yn Stoke on Trent lle bu farw. Trist iawn yw cofnodi damwain o'r fath yn y pentref, ac anfonwn gydymdeimlad cywir iawn yr holl ardal i Jean yn ei cholled fawr, ac i'r plant Graham a Gillian a'u teuluoedd.

Gwasanaethau y Capel

Mawrth 2ail, am 2 o'r gloch. Y Parch Marcus Robinson, gyda chyfarfod swyddogion i ddilyn am 3 o'r gloch.

Mawrth 23ain, am 10.00 y bore. Mr John H. Hughes.

Llywydd y mis fydd Mr Huw Ceiriog a Nia Jones fydd wrth yr organ.

Profedigaeth Cydymdeimlwn â theulu Mr Huw Ceiriog, Erw Wen, sydd wedi colli perthynas, sef Eirian Llwyd, gwraig y cyn A.C. Ieuan Wyn Jones, yn Sir Fôn. Roedd Eirian yn gyfnither gyfan i Huw.

Croeso Dymunwn yn dda iawn i Rhys ac Elin sydd yn ymgartrefu yn Ty'n y Coed yn ystod y mis, wedi prysurdeb mawr yno dros y gaeaf. Mae Rhys yn beiriannydd sifil ac Elin yn fferylllydd yn Ysbyty Gwynedd. Croeso mawr i chi i Gaeathro.

Tynfa Misol Dyma restr o enillwyr mis Chwefror: Bryn a Dilys Griffiths, Delfryn (31) £40; Mair Roberts, Sŵn y Gwynt (77) £25; Aled Thomas, Llwyn Onn, Glandŵr (34) £15; Wendy a Marcus Williams, Glandŵr (83) £5. Diolch am gefnogi'r Gymdeithas Cae Chwarae.

Capel MC Er bod capel Dinorwig wedi cau yn gynnar yn y 1990 mae cofeb i'r Parch Huw Myfyr yn dal yno. Mae Mrs Wigley wedi gofyn i'r Henaduriaeth a ydym am fynd â hi oddi yno. Tybed a oes teulu yn dal yn fyw yn rhywle a fuasai yn hoffi cael y gofeb? Mae yn gofeb hardd. Os nad oes teulu tybed a fuasai rhywun arall â diddordeb, mae yn resyn meddwl ei bod yn cael eilluchio. Yn y capel y cofiaf fi hi ar hyd y blyneddodd. Yr oedd ar yr ochr dde i'r pulpud pan yn cerdded i mewn i'r capel. Mae gweinidogion o sylwedd wedi bod yn bugeilio yn yr hen gapel, fel y Parch Puleston Jones a'r Parch Morgan Griffith, a'r ddau wedi symud o'r ardal i Penmount, Pwllheli, lle y mae cofeb i'r ddau ar y naill ochr i'r pulpud. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb a fydddech mor garedig â chysylltu â fi. Gobeithio y bydd gan rhywun ddiddordeb, neu yn gwybod pwy a fuasai hefo diddordeb.

Plant yr Ardal Does dim deufis o'r flwyddyn wedi mynd eto ac yr ydym wedi colli dwy o enethod yr ardal. Cofiw'n am Mrs Enid Jones, Bronallt, gynt. Bu Enid farw ym mis Ionawr yn Ysbyty Gwynedd yn 86 mlwydd oed, wedi bod yn wael am rhyw ddwy flynedd. Merch i'r diweddar Mr a Mrs William Jones, Bronant, ydoedd. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys MC lle y bu iddi briodi â Mr Cecil Jones, Porthmadog, lle y bu iddi gartrefu ar ôl priodi. Cafodd ei dwyn i fyny efo'i nain, Mrs Gaynor Williams, Chwarel Goch. Gedy ei phriod, Cecil, sydd yn 92 mlwydd oed

a'i iechyd ddim yn rhy dda, a'i thri plentyn, sef Brian, Elfyn a Gwyneth. Mae Gwyneth wedi bod yn ardderchog efo'i mam ar hyd y blyneddodd. Bu ei hangladd yn yr Amlogfa Bangor a rhoddwyd ei llwch yn y bedd hefo'i thad a'i mam ym Mynwent Macpela.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Cecil a'r plant a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth a gobeithio y cant nerth oddi uchod i ddal y colled fawr.

Hefyd

Ar y 6ed o Chwefror bu farw Mrs Maggie Hughes, hithau wedi bod yn wael am rai blyneddodd. Yr oedd yn 85 mlwydd oed a hi ac Enid wedi byw lai na 5 munud i'w gilydd. Merch hynaf Mr a Mrs Thomas Jones, Pant, ydoedd a chanddi un chwaer a brawd, sef Mair a Clifford, a'r ddau wedi ei rhagflaenu. Oherwydd ei iechyd bu i Gwynfor, ei phriod, gartrefu yng Nghartref Plas Garnedd, Llanberis, o'u cartref yn Nhregarth. Ganwyd iddynt dri o blant, sef y diweddar Bryn, Melfyn a Nia. Ni fu Maggie yr un fath ar ôl colli Bryn, bu yn golled fawr iddi ar ei ôl.

Bu ei gwasanaeth claddu yn yr Amlogfa ym Mangor ar y 13eg o Chwefror. Cydymdeimlwn yn fawr â Gwyndaf, Melfyn a Nia a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth, a gobeithio am iechyd a nerth iddynt yn ystod y dyddiau tywyll.

Cofion Yr ydym fel ardal yn anfon ein cofion at Mrs Alice Thomas a Mrs Alice Griffith, y ddwy wedi gorfod gadael eu haelwydydd i gartrefi preswyl. Gobeithio eich bod eich dwy yn cadw yn weddol.

J. M. JONES
a'i FEIBION
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffôn Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Merched y Wawr Llanrug

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Nan Humphreys, a chychwynnwyd y noson gyda Chên y Mudiad. Bydd y gangen yn gyfrifol eto eleni am y Caffi yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ar Fawrth yr 8fed. Mae nifer wedi gwirfoddoli i helpu ond os nad ydych yn gallu dod, gwerthfawrogi cyfraniadau o frechdanau, teisennau a diodydd.

Atgoffir pawb o gystadlaethau Gŵyl Haf ar Fai 17 gyda'r siaradwraig Betsan Powys. Cystadleuaeth Drama 2014 yw drama fer gyda'r pwyslais ar hiwmor – dyddiad cau yw Mai 1af. Mae rhestr o gystadlaethau Sioe Llanellwedd ar gael gan Olwen a Linda. Cynnyrch a'r Gwaith Llaw a Garddwriaeth, Gorffennaf 21-24.

Derbyniwyd taflen wybodaeth gan Mantell Gwynedd 'Cyfeillion Gwirfoddol', 'Ffrindia' – cynllun ar gyfer trigolion Gwynedd yw 'Ffrindia' – fe'i sefydlwyd er mwyn cefnogi gwirfoddolwyr i efeillio ag unigolion dros 50 oed sydd angen ychydig o gwmni, hwb i'w hyder neu help llaw i allu mentro allan i'r gymuned.

Mae 'Ffrindia' yn cynnig ymweliad personol, sgwrs, cwmni da a chefnogaeth i fynd am dro, mynd ar drafnidiaeth cyhoeddus a chymorth i gymryd rhan mewn clybiau, gweithgareddau lleol a llawer mwy. Gellir cysylltu â Nia Haf ar nia@mantellgwynedd.com neu 01286672626/07786511208.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Anna Jane o Gymorth Cristnogol yn dilyn sgwrs Maldwyn Thomas â'r gangen yn Ionawr. Ei ddymuniad oedd cyflwyno ei rodd i waith diflino Cymorth Cristnogol i ddileu tlodi a sicrhau fod y rhodd yn gyfrwng gobaith a bywyd newydd i rai o gymunedau mwyaf bregus y byd. Llongyferchir Tîm Bowllo 10 y gangen am ennill cystadleuaeth Merch y Wawr Arfon.

Siaradwraigwaddynoson oedd Cadi Iolen o Rhiwlas, Guradur yn Amgueddfa Lechi Llanberis ers 10 mlynedd. Caewyd Chwarel Dinorwig yn 1969. Nid saernio wagenni a bwrw

cledrau sydd yma heddiw ond adrodd hanes arbennig iawn – stori'r diwydiant llechi yng Nghymru. Yma gellir teithio'n ôl i weld gorffennol diwydiant a ffordd o fyw sydd bellach yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru.

Un o sylfaenwyr yr Amgueddfa oedd Hugh R Jones, un a welodd werth mewn achub a chadw hen greiriau'r chwareli a'r chwarelwyr. Agorodd yr Amgueddfa yn wreiddiol i'r cyhoedd yn 1972. Cyflogwyd nifer o chwarelwyr a pheirianwyr gwreiddiol y safle i gyflwyno'u crefft ac fe gasglwyd offer o chwareli Cymreig eraill. Fel Curadur, mae gofalu am yr holl gasgliadau drwy eu rhifo, cadw record o greiriau personol a storio mewn bocsys yn dasg bleserus a gwerthfawr i Cadi a'i chydweithwyr. Nawr, yn dilyn grant loteri mae einioes newydd i dreftadaeth diwydiant llechi gan greu atyniad a chyfleusterau sy'n cynnig diwrnod i'r brenin yn ardal hyfryd Parc Gwledig Padarn. Yn 2005 enillodd Amgueddfa Lechi Cymru wobwr glodfawr 'Ymdeimlad o Le' Bwrdd Twristiaeth Cymru. Felly, os am ddiwrnod llawn addysg a hwyl mewn tirwedd trawiadol o brydferth ar lannau Llyn Padarn, dewch i'r Amgueddfa a gwerthfawrogi gwaith y rhai sydd wedi llwyddo i drosglwyddo i ni hanes cyffrous y lechen las.

Gellir cael mwy o wybodaeth ar wefan 'Gweld ein digwyddiadau yn Amgueddfa Lechi Cymru'

Diolchwyd i Cadi am noson hynod o ddifyr ac addysgiadol gan Nan. Enillydd y raffl oedd Pat a pharatowyd y baned gan Mary, Megan, Meinir a Sheila.

Atgoffir yr aelodau y derbyn timer rhoddion o ddillad merched a phlant, offer ymolchi ayyb ar gyfer yr elusen 'Lloches i ferched'. Mae llawer o ferched yn wynebu trais yn eu cartrefi a'r plant hefyd yn dioddef oherwydd hyn. Gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad.

Ar Fawrth 11fed byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda Marcus Robinson. Pris tocyn ar y noson fydd £6. Edrychwn ymlaen am noson ddifyr a hwyliog.

Cymorth busnes am ddim i gwmnïau'r gogledd yn syth i'ch e-bost!

Ydych chi'n awyddus i dderbyn newyddion busnes yn syth i'ch mewnflwch e-bost er mwyn sicrhau nad ydych yn methu'r cyfle i holi am grantiau a chael cyngor am ddim?

Mae cylchlythyr dwyieithog Busnes Cymru, sy'n cynnwys cyngor di-dâl am faterion fel tendro a'r newyddion diweddaraf am newidiadau mewn cyflogaeth, iechyd a diogelwch a materion byd busnes eraill ar gael yn electroneg.

I dderbyn y cylchlythyr, ewch i www.busnes.cymru.gov.uk/cy/tanysgrifiwch-cylchlythyrau i neu ffoniwch 03000 6 03000.

Gall tanysgrifwyr gofrestru hefyd ar gyfer digwyddiadau a chysiau busnes di-dâl. Ymysg y pynciau dan sylw mae dod o hyd i gyllid ar gyfer busnesau a dysgu am dendro am gontractau newydd.

Mae Busnes Cymru, gwasanaeth cyngor busnes di-dâl Llywodraeth Cymru, yn darparu gwybodaeth am sut i gael hyd i gymorth gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Yn ôl Iwan Ellis, cydgysylltydd digwyddiadau Busnes Cymru yng ngogledd Cymru: 'Mae'n bosib i fusnesau sy'n derbyn y cylchlythyr arbed arian trwy gael hyd i'r newyddion diweddaraf ym meysydd adnoddau dynol, cyflogaeth, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a materion busnes eraill.

'Mae'r cylchlythyr hefyd yn rhoi cyngor ynghylch materion cyfredol. Er enghraifft, roedd rhifyn diweddar yn cynnwys awgrymiadau ar sut y gall busnesau gael eu traed danynt eto ar ôl i'r stormydd a'r llifogydd diweddar darfu arnynt.

'Rydym yn derbyn ymholiadau yn rheolaidd gan danysgrifwyr sydd wedi gweld erthygl berthnasol yn y cylchlythyr ac sy'n awyddus i wybod mwy. Mae ein timau o gynghorwyr yn eu cyfeirio at y ffynhonnell gywir, gan arbed amser ac arian i'r busnesau.

'Mae gofyn i arbenigwyr sydd eisoes yn meddu ar yr wybodaeth yn ddull effeithiol o gael hyd i ffyrdd newydd o dyfu eich busnes.'

Yn ogystal â darparu arweiniad arbenigol di-dâl, cyflwynir holl wasanaethau Busnes Cymru yn ddwyieithog, gan sicrhau y gall pawb gael hyd i'r holl doreth o gyfleoedd sydd ar gael.

I dderbyn y cylchlythyr, ewch i www.busnes.cymru.gov.uk/cy/tanysgrifiwch-cylchlythyrau neu ffoniwch 03000 603000 am wybodaeth bellach sut y gall Busnes Cymru helpu eich busnes chi.

GLANHAWR SIMDDE



Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwy
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

Pencerdd Gwyrfai.

Fel aelod o Glwb Eryri, Llanberis, trefn cyfarfodydd yw fod aelodau unigol yn gyfrifol am noson o weithgaredd. Daeth fy nhwrn i unwaith eto ar ddechrau Ionawr 2014. Beth am destun - Mae yn eiddo'r teulu ffon arwain a llyfr cerddoriaeth wedi ei arwyddo Howel Ellis, Pencerdd Gwyrfai, sef hen daid fy ngwraig. Ond yn anffodus dyma'r unig wybodaeth sydd gennym fel teulu. Canfyddais ymholiad am y Pencerdd ar y

we, a thrwy ymateb daeth cryn wybodaeth fy ffordd, mae ein diolch fel teulu yn fawr i Hywyn Williams un o hogiau Deiniolen am fy arwain at y ffynonellau angenrheidiol. Oherwydd ei fod yn Bencerdd 'roedd cryn tipyn o'i hanes yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei adrodd yn y papurau led led Cymru, ond yn anffodus nid oes dim wedi dod ein ffordd am ei gysylltiadau â'r byd cerddorol,

heblaw ei fod wedi rhoi un o'i emyn donau, 'Dewch Blant Bychain Dewch i Ganu' ar gyfer cymanfa ganu Capel Salem, Caernarfon yn ystod haf 1915. Er ei fod wedi byw ym Methel drwy ei fywyd priodasol, hyd ei farwolaeth yn 1936, brodor oedd yn wreiddiol o Gaethro. Drwy ystyried cyn gymaint sydd wedi eu cofnodi am erchylltra'r Rhyfel Mawr, does dim yn fy nhyb i wedi crynhoi'r uffern a oedd yno

yn well na chyfweliad gohebydd y Dinesydd Cymreig (Y Genedl) â Howell Ellis pan adref yn dilyn ei glwyfo ym mrwydr Ypres yn 1914. Buasem fel teulu'n ddiolchgar os oes gan unrhyw un wybodaeth pellach am y Pencerdd, yn enwedig be oedd ystyr Pencerdd yn y fro tros y blynyddoedd. Yn gywir Huw P. Hughes, Bethel, Arfon. huw.hughes@lineone.net

Y Dinesydd Cymreig 7ed Hydref 1914 Profiad Cymro o Fethel Canu 'Bryn Calfaria'

Canu 'Bryn Calfaria'
Dydd Iau cyn y diwethaf dychwelodd Mr. Howell Ellis (Pencerdd Gwyrfai), Erw Ffynnonydd, Bethel, yr hwn a oedd yn aelod o Fataliwn Gyntaf o'r R.W. Fusiliers, adref o faes y frwydr, wedi cael ei glwyfo. Y mae wedi colli dau o fysedd ei law chwith a tharawyd ef yn ei gefn ym mrwydr Ypres. Bu un o gynrychiolwyr y "Genedl" yn ymweld ag ef nawn Iau, a chafodd beth o'r hanes ganddo. Dywed Ellis mai gyda'r Regimental Police yr oedd ef yn Wrecsam, ag aeth allan i'r frwydr yn nechrau mis Hydref. Aeth trosodd i Havre, ac aeth ymlaen oddiyno drwy'r wlad i ymuno â milwyr eraill. Dewiswyd y cant goreu o'r pedwar cant a hanner o wŷr ag y perthynai Ellis iddynt i fynd i Adiel, pum' milltir o Ostend, Belgium, ac aethant i Ypres, lle yr oeddynt pan oedd y lle yn cael ei dân-belenu. Yr oedd golwg ddychrynlyd ar y lle hwnnw, meddai, ac ymosodid arno nos a dydd gan y gynnu mawrion o bob tu. Deuai'r adeiladau i lawr, a gwelid y bobl ieuanc yn ffio oddiyno. Pan gyraeddasant hwy yno yr oedd y bobl yn cael eu gollwng o'r gwallgofdai rhag y digwyddai niwed iddynt wrth aros yno. Gwelodd hefyd y plant yn rhuthro allan o'r tloty, a phawb yn dianc am eu heinioes. Yr oedd yno ddosbarth na allent deithio ymhell sef yr hen drigolion. Elent hwy o'r tai gan geisio cysgod rhag y tân ofnadwy o dan furiau rhai o adeiladau mwyaf yn y lle. Sylwodd Ellis mai yn y lle hwn yr oedd nerth y Germaniaid, ac fod eu hymdrechion yn galed i ddal y lle yn eu meddiant. Cyfarfu Howell Ellis â rhai o fechgyn Caernarfon yn y rhyfel, sef Griffith Williams, yr hwn oedd yn bêl-droediwr medrus, a Wil Gregory, a Richard Hughes, Mill Lane, a bu yn ymladd gyda hwy am ran o'r saith wythnos a thridiau y bu yn y rhyfel. Mewn ateb i'n cynrychiolydd dywedodd Ellis na chaniateid canu yn y ffosydd, a'u bod yn agored i gael eu saethu pe gwnelent hynny. Ychwanegodd mai yr unig siarad fyddai yno oedd pasio'r gorchmynion y naill i'r llall. Yr oedd hyn yn ddigon naturiol gan fod y Germaniaid mewn rhai mannau yn agos iawn atynt, a buasent yn deall lle 'roedd y Prydeiniaid os y clywent eu

lleisiau. Gwadaid Ellis fod cymaint o ddwfr yn y ffosydd ag y dywedai rhai. Yr oeddynt, wrth gwrs, yn fudur ac yn wlyb ar ôl y gwlawogydd, ond nid oedd dwfr at eu gliniau fel y dywed rhai. Yr oedd y ffosydd wedi cael eu gwneud, meddai, gan rai a oedd yn deall y gwaith o gloddio'r ddaear, sef amaethwyr - llawer ohonynt o Sir Fôn, ac yn eu mysg yr oedd cyfaill Ellis, sef dyn o'r enw Green, o Gaergybi. Gŵyr amaethwyr oherwydd eu profiad sut i wneud ffos, a chaniataent le i'r dwfr redeg fel y gwnaent wrth ddraenio cae. yr oedd ffosydd eraill y tu ôl, gyda ffos tua theirlath o hyd yn arwain o'r naill i'r llall. Yno yr oedd eu "dug-outs," sef y lleoedd y gorffwysent, ac y gwnaent eu bwyd. Dywedodd Ellis iddo ganfod glo mewn un ffos y bu ynddi, wedi ei adael yno gan y Germaniaid yn eu brys i fyned oddiyno. Buont yn torri ffosydd unwaith neu ddwy, a gorchest yn teilyngu sylw oedd eu bod wedi cloddio hanner milltir o ffos mewn ugain munud. Pan ofynnodd ein cynrychiolydd sut y gwnaethpwyd hynny, dywedodd eu bod yn cael eu gosod yn rhes hir ac fod dyn gyda'i raw yn torri llathen ysgwâr. Yr oedd Ellis yn Amateurs pan dân-belenwyd y lle, ac yr ymosodwyd ar y Germaniaid gan eu gyrru o goedwig. Pan oeddynt yn y rhuthr gwaeddodd yn Germanwr, "Er mwyn Crist peidiwch a'm taro". Ond ymhen ychydig saethwyd ef i lawr gan un o'r dynion. Pan gymerwyd rhai ohonynt yn garcharorion, dywedasant "Diolch i Dduw, - yr ydym wedi cael digon arnai". Tystiai Ellis yn uchel i ynau mawr y Ffrancod, yr oedd yn well na rhai y Prydeiniaid, ond yr oedd gwŷr traed Prydain yn rhagori llawer ar eu gwŷr traed hwy. Yr oedd yn anodd i'r meirch-filwyr rhuthro gan fod y ddaear wedi rhewi yn galed. Y rhyfeddod mwyaf welodd Ellis yn ystod yr holl amser oedd gweld hen ŵr o amaethwr yn aredig mewn cae yn agos i un o'r trefi, tra'r oedd y milwyr ar bob ochr iddo. Ni thalai sylw i'r tanio, ond ai ymlaen gyda'i waith yn hamddenol. Wedi gadael y ffosydd arferant fynd yn ôl tua chwech i wyth milltir i'r wlad, er mwyn cael cysgu a glanhau eu hunain mewn tai, y rhai oeddynt yn weigion, a'r trigolion wedi diflannu am eu

heinioes gan adael popeth ond yr hyn fedrent gludo i'w canlyn. Yr unig beth byw welid oedd ambell i anifail, aciâr neu ryw beth cyffelyb. Ar ôl mynd o un ffos aethant i orffwys mewn hen amaethdy, ac er eu syndod gwelsant bedair o wartheg. Cafodd ef ganiatad i'w godro, a gwnaeth fara llefrith i'r rhai oedd yno. Yr oeddynt yn cael digon o fwyd. Pan yn mynd i'r ffosydd dygent ddigon o fwyd i barhau am dridiau, ond pan wedi mynd oddiyno yn oeddynt yn cael eu cyflenwi â digon o dybaco, etc. Pan oeddynt hwy mewn tref fechan ym Belgium ac yn aros yn Neuadd y Dref, tân-belenwyd y lle gan y Germaniaid, a cholasant llawer o wŷr, drwy i'r lle ddisgyn arnynt. Collasant hefyd rhai swyddogion. Y mae ffosydd y Germaniaid yn wahanol iawn i ffosydd ein milwyr ni, medd Ellis. Gwneir hwy ar ffurf igam-ogam, ac nid yn un llinell fel rhai y Prydeinwyr. Pan ffrwydrai pelen yn ein ffosydd ni rhedai o un pen i'r ffos i'r llall, tra nas gallai wneuthur hynny yn y ffos igam-ogam. Roedd y Gurkiaid ymysg yr ymladdwyr dewraf welodd ef; disgwylient gyda'u cyllyll yn eu cegau ac ysent am gael rhuthro ar y gelyn. Maent a'u calon yn y gwaith. Yr oedd y "snipers" yn beryglus iawn yn gwylio'n wastad am y cyfle i anelu. Poenwyd ef gan un ohonynt am hir amser, yr hwn oedd o fewn tafliaid carreg iddo. Aeth i chwilio amdano ymhen amser, ond yr oedd wedi cilio. Digwyddiad rhyfedd arall oedd iddynt fyned i gludo dwfr i'r gwŷr gyda'r poteli dwfr, ac ar ôl iddynt ddychwelyd gyda'r dwfr aeth parti arall i chwilio am beth, ond ni ddychwelasant byth mwy. Nid oedd neb yn yr hen ffermdy pan aeth y parti cyntaf yno, ond efallai fod y snipers yn gwylio yn y cwmPASOedd. Gwelodd Ellis frwydr yn yr awyr, ymha un y cymerodd tuag ugain

o awyrennau ran. Tynwyd un o awyrennau'r Germaniaid i lawr a llwyddasant hwythau i dynnu dwy o eiddo'r Cynghreirwyr i lawr. Yr oedd y llongau awyr yn chwarae rhan bwysig iawn yn y rhyfel. Defnyddid hwy i ddangos i'r gynnu mawr pa le i danio. Yr oedd un ohonynt yn hofran uwchben y ffos ym mha un oedd Ellis, gan ollwng goleuni fel arwydd pa le i danio, ac yna y deuai y gynnu mawr i wneud eu rhan. Hefyd teflir pethau tebyg i waywffyn o'r llongau awyr, gyda dur ar eu blaen, y rhai os y trawant ddyn yn ei ben, a'i lladdant yn y fan. Ymhen pob ffordd ym Melgium y mae croes o ddelw Crist arni. Bu Ellis heibio i'r fan y claddwyd Capt Grieff a Syr Robin Duff, sef wrth ochr hen eglwys. Tri ffrind gore y milwyr tra yn y ffosydd ydyw y "water-proof sheet," y gôt fawr, a'r botel ddwfr, meddai Ellis, ac y byddant yn weddol gysurus ar wellt yn y "dug-outs". Trawiadol oedd gwaith y Fataliwn Gyntaf o'r R.W.F. yn dychwel ar y Sul o frwydr Lille, gan ganu tôn William Owen, Prysgol. "Bryn Calfaria," a'r Ffrancod yn ceisio ymuno â hwy yn y gân. Mae'r dôn hon bellach yn wybyddus drwy'r holl fyd. Yr oedd y milwyr yn falch iawn o gael canu wrth ddychwelyd o'r frwydr, gan na chaniateid hynny yn y ffosydd. Wedi ei anafu yn y frwydr bu i Mr Howell Ellis mewn chwech o wahanol ysbytai a chanmolai y driniaeth gafodd ynddynt. Dygwyd ef drosodd o Boulogne gyda phleser-long "Albion," perthynol i Mr. Lowther o Lundain, a chyrrhaeddodd i Southampton. Bu yn ysbyty Efrog a chanmolai y caredigrwydd ddangoswyd tuag ato. Wrth derfynu ei ymgom sylwodd Ellis fod y milwyr Cymreig wedi gweithio yn galed iawn er mai ychydig fu'r sôn am danynt, ac yr oedd ganddo y parch mwyaf i Capten Ford, oedd yn gofalu am danynt.

“Y Caizer,” Ymerawdwr Germani
“Caizer heb swper yn sypyn, - llusgwch
A llosgwr e’n golsyn;
Yn hir hir bydd ôl colyn
Y brwydrwr dwys bradwr dyn.
ISEIFION.

CHWILOTA

Digwyddiad anghyffredin ym Mhenscoins.

Cyrion ardal bro'r 'Eco' efallai, ond diolch i Eifion Roberts, Llanberis am dynnu sylw at y digwyddiad hwn dros gan mlynedd yn ôl. Am dros ddwy flynedd, rhwng 1906 a Mehefin 1908 bu Mrs Roberts, gwraig i chwarelwr yn byw ym Mhenscoins, yn dioddef o boenau yn ei stumog. Yn dilyn triniaeth gan ei meddyg lleol, Dr H. Edwards, Y Felinheli, cyfogodd waed a dwr, ond o fewn y gymysgedd roedd creaduriaid byw! Fe'u disgrifiwyd fel creaduriaid tebyg i gorgimychiaid, tua tair modfedd o hyd gyda llygad mawr coch a thua deuddeg o draed. Du oedd eu lliw, ar wahan i wawr binc o dan y corff. Ni fuont byw yn hir. Cadwodd Dr Edwards hwy mewn 'sudd fferyllol' yn ôl yr adroddiad. Yr oedd y teulu yn denantiaid i'r Faenol, a phan glywodd Assheton

Smith am y digwyddiad, anfonodd ei feddyg personol, Dr Grey Edwards, Bangor i gael golwg ar y creaduriaid. Cynigiodd hefyd wasanaeth Dr Mills Roberts, meddyg Chwarel Dinorwig, i'r teulu.

Y ddamcaniaeth ar y pryd oedd fod Mrs Roberts wedi llyncu wyau (hadau pryfed yw'r term a ddefnyddir yn yr adroddiad) y pryfetach wrth yfed dwr heintus, a bod yr wyau wedi deor o fewn ei stumog. Taerai Mrs Roberts fod mwy o'r creaduriaid o'i mewn, gan y gallai eu teimlo'n symud. Rhoddwyd mwy o ffisig iddi, yn y gobaith y byddai'n lladd y pryfed neu'n achosi iddi eu chwydu allan fel o'r blaen.

Mae'n amlwg i'r meddygon drosglwyddo'r creaduriaid i'r Coleg ym Mangor, a cheir adroddiad gan ddau 'arbenigwr' – Dr Cunningham a Dr White, a gredai mai math o gimwch coch dwr croyw (crayfish) oedd y creaduriaid. Arweiniodd y digwyddiad tuag at archwiliad manwl o ffynhonell dwr yfed ardal Penscoins.

Tybed a fu mwy o ddigwyddiadau tebyg? A thybed hefyd a oes cimychiaid coch dwr croyw yn dal i fyw yn rhai o nentydd yr ardal?

Tocyn Cyngerdd Capel Cynulleidfaol Llanberis.

Darganfu Dylan C. Parry tocyn (gweler llun) tra'n atgyweirio tŷ yn Snowdon Street, Llanberis rai blyneddau yn ôl. Ymddangosodd y llun ar wefan gymdeithasol Facebook dan bennawd "Llanberis Ddoe a Heddiw", a bu Eifion Roberts yn ceisio olrhain hanes y cyngerdd a'r capel. Bu'n pori yn hanesion capeli Nant Padarn (Mat Pritchard), Capel Coch a Chapel Gorffwysfa (Y Parch John Owen), a hefyd lyfr William Williams ar hanes Llanberis, ond methu cael cyfeiriad at unrhyw Gapel Cynulleidfaol.

O'r diwedd daeth ar draws adroddiad yn Baner ac Amserau Cymru ym mis Mawrth 1868 yn son am y cyngerdd yng Nghapel Nant Padarn. Dyma gapel newydd yr Annibynwyr yn y pentref, ac ym mis Mawrth y flwyddyn honno, doedd yr adeilad ddim wedi ei gwblhau yn derfynol (ac o bosib, heb ei enwi'n



swyddogol). Ni chafodd y capel newydd ei ymgorffori hyd y 4ydd o Fehefin yr un flwyddyn.

Cynhaliwyd y cyngerdd er mwyn helpu i dalu'r ddyled ynglŷn â chodi'r capel newydd, a'r llywydd oedd y Parch Thomas Johns, gweinidog Ebenezer (Deiniolen). Y ddau 'enw' oedd yn denu'r gynulleidfa oedd Llew Llwyfo ac Ap Madog.

Roedd Llew Llwyfo (William Lewis Lewis, o Lanwenllwyfo, Môn) yn hynod boblogaidd ar hyd a lled Cymru fel cantor ac arweinydd eisteddfodau a chyngherddau. Bu ar daith yn America hyd yn oed, ond erbyn diwedd ei oes roedd ei amgylchiadau yn bur ddifrifol, ac yn aros mewn un ystafell yn Nhyddyn Rhuddallt, Llanrug, a gwraig y tŷ yn cael ei thalu am ymgeleddu'r lodjar!

Mae'r ystafell honno'n cael ei galw'n 'Barlwr Llew' hyd heddiw.

Ond yn 1868 byddai'r 'Llew' wedi medru llenwi capel newydd Nant Padarn ei hun, gymaint oedd ei boblogrwydd. Ond beth am Ap Madog? Yn ôl yr adroddiad yn y Faner, dywedir "Y mae Llew yn sicr o lenwi pob lle, ond fe allai na thrangwydda y Llew wrthym am ddweud fod a wnelo Ap Madog a rhan helaeth o'r cyngerdd." Pwy oedd Ap Madog? Does dim cyfeiriad ato yn y Bywgraffiadur Cymreig, a hyd yma, ni fedrais ddarganfod mwy amdano. Oes gwybodaeth gan unrhyw un o'r darllenwyr? Bu'r cyngerdd yn hynod lwyddiannus o ran cyllid i'r capel newydd, ac o ran canu a mwynhad i'r gynulleidfa. Tybed pwy oedd y teulu o Snowdon Street a fu'n mwynhau'r cyngerdd rhagorol hwn?

Claddu merch ifanc o Glwt y Bont.


Tynnwyd fy sylw at adroddiad yn Seren Cymru, fis Hydref 1892 yn rhoi hanes claddedigaeth Mary Jones, merch William a Mary Jones, View Terrace, Clwt y Bont. Deunaw oed oedd Mary, ac yn 'athrawes' yn Ysgol Genethod Deiniolen: mae'n fwy na thebyg mai 'pupil-teacher' oedd, oherwydd dywedir ei bod wrthi'n cymhwyso ei hun i fynd i'r coleg. Roedd ei salwch wedi ei llethu ers rhai misoedd, ac wedi atal ei gwaith paratoi ar gyfer mynediad i goleg. Yr oedd yn uchel ei pharch ymhlith plant yr ysgol ac yn yr ardal, ac yn aelod ffyddlon o Gapel Libanus.

Adroddir mai'r Parch W. Rhys Jones o Benrhyncoch ger Aberystwyth oedd yn gweddio yn y tŷ cyn yr angladd, ac mai'r

'ysgrifennydd' oedd yn annerch y dyrfa wrth y bedd cyn claddu ar ddydd Mercher, 14eg o Fedi ym mynwent Llandinorwig.

Pam tybed fod gweinidog o ganolbarth Cymru yn yr angladd, ond mai dim ond gweddio yn y tŷ a wnaeth? Does dim son pwy oedd yn gwasanaethu ar lan y bedd, ond mae'r cyfeiriad at 'ysgrifennydd' yn annerch y dyrfa yn taro'n ddieithr. Tybed ai ysgrifennydd Capel Libanus oedd hwn? A pham annerch y dyrfa yn hytrach na chynnal gwasanaeth angladdol?

A ddaeth unrhyw un ohonoch ar draws traddodiad tebyg, neu sy'n gallu ychwanegu at yr hanes uchod?



Llun cynnar o Chwarel Dinorwig.

Anfonwyd y llun yr holl ffordd o'r America gan Janice Edwards, Cartref Taid, 60 Norton Avenue, Poultney, VT 05764-1029USA. Rhoddaf y cyfeiriad yn llawn rhag ofn fod rhywun â gwybodaeth am y llun a'r chwarelwyr sydd ynddo. Dyna'r cais gan Janice,

oherwydd dywed mai un o'i hynafiaid, John Jones, Hen Lôn, Ebenezer yw'r gŵr yng nghanol y rhes flaen.

O astudio'r llun yn fanwl, gwelir y llythrennau "O.G." neu "O.J. Hen Lon" o dan y gŵr yng nghanol y rhes flaen. Mae "W" yn cael ei ddilyn gan ".ly."

ac yna "Evans" (?) o dan y gŵr ar y dde eithaf. Gallai fod yn W. Glyn Evans, ond amhosib cadarnhau hynny - os na all un o'r darllenwyr ein goleuo!

Bu cryn dipyn o hanes Teulu Hen Lôn, a llun o'r cartref gwreiddiol yn y golofn hon rai blynyddoedd yn ôl bellach.

Dyma lun arall o'r un cyfnod, ac os yw gwybodaeth Janice yn gywir, llun sy'n dyddio cyn 1881, oherwydd dyna'r flwyddyn y bu John Jones farw, a'i gladdu ym mynwent Macpelah.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Cymru Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: 01286 678310
(ar agor 09.00 - 17.00)

Neu ffoniwch

0800 085 3741

neu ewch i

www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

AgeUK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.

Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw o logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Tavistock House, 1-6 Tavistock Square, London WC1H 9NA.
ID200457 03/12 MP2429V2MAR12_SL106823_13

Tyddyn Eithin.

Daeth un ymateb ynglŷn â'r ymholiad am leoliad hwn yn Llanddeiniolen - a hynny yr holl ffordd o Surrey, gan Elwyn Williams (Crawia gynt). Tybiai fod Tyddyn Eithin wedi ei leoli rhywle rhwng ardal Erw Bian/Coed Bolyn ac Eglwys Llanddeiniolen. Mae'n cofio hen lanc yn byw yno tua diwedd yr Ail Ryfel Byd, ond ni wyddai ei enw. Oes rhywun all gadarnhau y ffeithiau uchod?

Chwilota ar y wê.

Yn ôl yr addewid cyn y Nadolig, mae "Chwilota" bellach ar y wê, a byddaf yn ceisio ychwanegu erthyglau, pytiaa a lluniau o'r golofn yn ystod yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Arafyw'r broses ar hyn o bryd tra byddaf yn ymdopi â'r dechnoleg angenrheidiol! I'r rhai ohonoch sydd yn giamstars ar y cyfrifiadur, gallwch ddarganfod y golofn ar chwilota.wordpress.com Mae'n haws dod o hyd i'r safle ar Google Cymraeg, neu ar Safari i'r rhai ohonoch sy'n defnyddio tabledi i-pad. Gallwch ychwanegu eich sylwadau eich hun at y wybodaeth. Gan fod ymateb i rai testunau yn dod fis neu ddau wedi'r hanes gwreiddiol, y gobaith ar y wê yw crynhoi'r cyfan fel bo'r wybodaeth i gyd dan yr un teitl; felly ni fydd cynnwys y wê yn union yr un fath â'r hyn sydd yn y papur.

Ond i'r rhai ohonoch sy'n well ganddynt godi'r ffôn neu anfon pwt o lythyr, yna gallwch gysylltu fel arfer ynglyn ag unrhyw ymholiad neu wybodaeth am hanes lleol bro'r "Eco" drwy anfon at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffon 012

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein
hysbysebwy

Llongyfarchiadau mawr i Natalie Elisha, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, a Martin Gall o Efrog ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Capel y Rhos Gyda'r gweinidog, y Parch. Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu, cafwyd oedfa fedydd fore Sul, Chwefror 16eg. Cyflwynodd Owain a Nia Edwards, Rhes Hermon, eu tri plentyn bach i'w bedyddio - Dion Peris, Alaw Mai a Beca Non. Braff iawn oedd cael croesawu'r teulu ehangach i'n plith a dymunwn bob bendith i'r plantos a'u rhieni.

Cylch Meithrin Llanrug

Pêl Bonws Enillwyr Pêl Bonws y Cylch hyd yn hyn: Tachwedd 23ain - Eryl Roberts; Tachwedd 30ain - Eryl Roberts; Rhagfyr 7fed - Gwenan Jones; Rhagfyr 14eg - Mair Parry; Rhagfyr 21ain - Gwen Edwards; Rhagfyr 28ain - Cylch Meithrin; Ionawr 4ydd - Mair Parry; Ionawr 11eg - Siwan Humphreys; Ionawr 18fed - Anne Elis; Ionawr 25ain - Moira Owens; Chwefror 1af - Lowri Peres; Chwefror 8fed - Valmai Lloyd; Chwefror 15fed - Macsen a Nanw Llwyd.

Mae ambell rif yn dal ar gael os ydych am gymryd siawns

Noson Cyri a Cwis Cariadus Cynhaliwyd noson hwyliog a llwyddiannus iawn yng Nglyntwrog ar Chwefror 7fed, yng nghwmni rhieni, staff a ffrindiau'r Cylch. Codwyd £290 tuag at gronfa'r Cylch. Diolch yn fawr i Kai Burgess am fod yn gwis feistr penigamp unwaith eto, i Siwan

Humphreys am baratoi'r cwis ac i Dave a Bobbi Glyntwrog am y bywd a'r croeso.

Cyngerdd Gŵyl Ddewi Cynhelir Cyngerdd Gŵyl Ddewi gan blant y Cylch a Chlwb Cinio, Nos Iau, Mawrth 6ed am 6 y.h yn neuadd yr ysgol gynradd

Cylch Meithrin a Ti a Fi Rhagorol Llongyfarchiadau enfawr i Anti Nichola a holl staff y Cylch Meithrin am eu gwaith caled sydd wedi eu galluogi i dderbyn y sêl 'Cylch Rhagorol'.

Hoffwn longyfarch Anti Enyd a chriw Ti a Fi hefyd am lwyddo i gyrraedd y sêl o fod yn 'Gylch Ti a Fi Rhagorol' yn ddiweddar.

"Tystysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynnyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol yw sêl 'Y Cylch Rhagorol'. Sefydlwyd cynllun 'Y Cylch Rhagorol' gan Mudiad Ysgolion Meithrin i achredu ansawdd a chydabod rhagoriaeth y ddarpariaeth a gynigir gan gylchoedd Meithrin. I dderbyn sêl 'Y Cylch Rhagorol' asesir y Cylch gan arolygwyr proffesiynol, annibynnol sydd yn cymryd i ystyriaeth holl agweddau'r Cylch Meithrin gan gynnwys y bobl, yr amgylchedd a'r profiadau a gynigir i'r plant yn eu gofal. Bydd Cynllun 'Y Cylch Rhagorol' yn cydnabod yr elfennau arbennig hyn sy'n cyfuno i greu Cylch o ansawdd rhagorol.

Rydym yn ffodus iawn fel pentref fod gennym ddarpariaeth mor arbennig

i'n plant. Llongyfarchiadau unwaith eto.

Pwyllgor Cynhelir cyfarfod nesaf o bwyllgor y Cylch Nos Iau, Mawrth 13 am 7y.h yn adeilad y Cylch - croeso cynnes iawn i bawb.

Cofrestru plant newydd Os yw eich plentyn yn cael eu pen-blwydd yn 3oed rhwng Medi 1af, 2014 ac Awst 31, 2015 ac yn dymuno cychwyn yn y Cylch, mae ffurflenni cofrestru ar gael yn y Cylch.

Diolchiadau Fe ddymuna Mr Iolo Llywelyn ddiolch yn arw iawn am yr holl alwadau ffôn, llythyrau a chyfarchion Nadolig a dderbyniodd tra yn yr ysbyty wedi damwain a hefyd ar ôl dod adref. Diolch am y cymorth a dderbyniodd gan y Gofalwyr.

Braff iawn yw deall eich bod wedi gwella mor dda ar yn ôl yn y capel.

Dymuna Mrs Joan Williams, Llwyfor, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a phersonol dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Cafodd ddynodiaid bendigedig rhwng pawb!

Profedigaethau

Bu farw Mrs Mai Parry, Bryn Heli, ar ôl cyfnod o waeledd cas. Cafodd ofal cywir gan Alf,

ei gŵr, a'u plant au teuluoedd.

Person gweithgar iawn oedd Mai ac Alf a'rgwaith gwirfoddol yn cael ei wneud yn dawel. Bydd colled fawr i'r teulu a'r ffrindiau chydymdeimlwn ag Alf, Gareth a Helena a'u teuluoedd.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Gwennie Morris, Clydfan, Ffordd Glanmoelyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer hynaf, sef Beryl, a fu yn byw ym Mhlas Pengwaith am flynyddoedd.

Hefyd fe gydymdeimlwn â Morfudd Roberts, Rhes Minffordd, yn ei phrofedigaeth hithau yn colli ei chwaer, Hafina, yn 67 mlwydd oed.

Ar Chwefror 12fed bu farw Thomas Deiniol Owen yn ei gartref yn 48 Bro Rhythallt. Gŵr annwyl Mary a llys-dad Angela a'i theulu yn Awstralia.

Roedd Mr Owen yn fab i fferm Glanrafon, Pontrug, ac yn frawd i'r ddiweddar Nellie Owen. Anfonwn ein cydymdeimlad i'r teulu oll.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb cant Chwefror oedd 1. Gwyndaf Hughes; 2. Megan Roberts.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb cant Mis Ionawr oedd 1. Mrs B. Williams, Disgwylfa; 2. G. Davies, Bod Awel; 3. E. Roberts, 7 Afon Rhos.

Oedfaon mis Mawrth

Mawrth 2 - Parch. Marcus Wyn Robinson y gweinidog a gweinyddir y cymun
Mawrth 9 - Mrs Mererid Mair Williams
Mawrth 16eg - Parch Marcus Wyn Robinson
Mawrth 23ain - Canon Idris Thomas
Mawrth 30ain - Miss Eleri Jones

H. E. HUGHES
A'i Feibion

Bwthyn Gadlys Llanberis



GWERTHWR GLO ac OLEW GWRES CANOLOG

(01286) 870444

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



DIONI

http://dioni.co.uk
tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

Gwobr i Fand Iau Llanrug.



Rhai o aelodau Iau Band LLanrug gyda'i harweinydd Dyfrig Owen a fu'n cystadlu yn Nghystadleuaeth Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Galeri Caernarfon ar Sadwrn Chwefror 8ed. Ennilodd y band y brif wobwr.

Adran 1 Slow Melody dan 10oed :- Elen Llestyn cyntaf

Adran 2 Slow Melody dan 12 oed :- Iwan Griffiths cyntaf

Adran 3 Slow Melody dan 14 oed :- Owain Llestyn trydydd

Adran 5 Slow Melody dan 18 oed :- Isabel Griffith trydydd

Deuawd dan 14 oed Carwyn Sion a Guto Davies :-ail

Deuawd dan 18 oed Tomos Roberts a Isabel Griffith :- ail

Deuwad agored Rachael Price a Stephen Williams :- trydydd

Air Varie dan 14 oed Owain Llestyn :-ail

Air Varie dan 18 oed :- Tomos Roberts cyntaf

Pedwarawd dan 14 oed :- Pced Bach o Bres trydydd

Air Varie dros 18 oed :- Stephen Williams trydydd.

Ysgol Gynradd Llanrug



Mae disgyblion blwyddyn 6 yr ysgol wedi bod yn brysur yn dilyn cwrs 'Diogelwch y ffordd – Sgiliau seiclo' gyda Mrs Rhian Thomas.

Cynhaliwyd noson sinema i ddisgyblion yr ysgol. Roedd yr elw yn mynd tuag at yr ysgol. Diolch i bawb a gefnogodd.

Mae disgyblion y dosbarth derbyn wedi bod yn gwneud gwaith ar y thema 'Cartrefi'. Daeth 'Cwmni Eiddo' (cwmni gwerthu tai) i'r ysgol i agor 'Swyddfa Eiddo' y dosbarth. Diolch yn fawr iawn i Sion ac Anest.

Dros yr wythnosau diwethaf mae Blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn

brysur iawn yn dysgu am y wlad China ac am yr arferion yno yn enwedig y flwyddyn newydd. Daeth David Chan a Menna draw i'r ysgol i sôn am fywyd yn Hong Kong gyda'r plant. Cafodd pawb ddysgu cyfiri yn yr iaith Cantoneg a blasu rhywfaint o'r bwyd gwahanol oedd ganddo. Diolch yn fawr iddo am brynhawn difyr. Hefyd bu blwyddyn 2 yn ffodus i gael ymweld ag Ysgol Aberconwy i ddosbarth Chineaidd. Cafodd y plant flasuarad yr iaith Mandarin, defnyddio gweill bwyta, canu cân am y flwyddyn newydd a dawnsio gyda'r ddraig. Diolch yn fawr iawn i mam Twm Brooks am drefnu prynhawn diddorol iawn i ni gyd. Mi fydd y plant yn cofio'r profiad am byth.



Olwen Owen, Grace Dawson, Cyng Eurig Wyn, Trevor Beech a Barbara Griffith.

DIOLCH TREVOR (WAUNFAWR) Cyflwynwyd gwobr arbennig i Trevor Beech, Bronallt, Waunfawr am ei ofal dros ei gymuned, yn arbennig yr henoed.

Cyflwynwyd tystysgrif arbennig - CALON Y GYMUNED - i Trevor Beech, Bronallt Waunfawr ar ran Cyngor Cymuned Waunfawr gan gynghorydd Gwynedd yr ardal Eurig Wyn.

Dywedodd y Cynghorydd Wyn: "Mae ei gonsyrndros eraill yn anhygoel, bob tro wrth law i helpu Does dim yn ormod iddo.. Diolch amdano."

Dywedodd Grace Dawson, 80 mlwydd oed o Drefeilian: "Mae'n anodd meddwn sut fydden ni'n ymdopi hebddo. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r cyngor cymuned am gytuno i'n cais a chyflwyo'r wobwr hon, ac i Trevor am fod wrth law bob amser i'n helpu."

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr oedd £30: Mr Huw Ynyr, Dolwar Fach; £20: Mrs Cadi Jones, Nant; £10: Mr J.H. Edwards, Anneddle.

Bwndelu Fore Gwener olaf mis Ionawr daeth yr Eco i Festri Eglwys y Waun i gael ei fwndelu yn barod i'w ddosbarthu i'r pentrefi. Diolch i Robat, Rob ac Alma am roi eu hamser i helpu Marian gyda'r gwaith. Diolch i

Pat am agor a chloi y Festri ac i bwyllgor yr Eglwys am gael gwneud y gwaith yno eto eleni.

Wyres Fach Newydd Llongyfarchiadau i Cadi a John Gwynedd, Nant, ar ddod yn nain a thaid i wyres fach. Ganwyd Mali Siôn i Heddu ac Iwan Siôn. Croeso mawr i Mali fach.

Yn yr Ysbyty Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Janet

Smith, sydd yn yr ysbyty wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich. Gobeithio y bydd yn gwella'n fuan. Anfonwn ein cofion cynnes at Gwendoline Roberts sydd wedi mynd i aros i Gartref Maesincla dros dro.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad i'r rhai o'r pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ystod yr

wythnosau diwethaf. Swatio'n gynnes yw'r peth gorau i'w wneud yn ystod y tywydd mawr yma.

Eisteddfod y Pentref Fe giliodd y glaw a thawelodd y gwynt jyst mewn pryd i'r cystadleuwyr ifanc ddod i'r Ganolfan ar gyfer yr Eisteddfod. Fe wnaeth pob un ei orau a chael canmoliaeth gan y beirniaid.

Ysgol Waunfawr

Bu'n hanner tymor prysur er gwaethaf y tywydd garw.

Cafwyd diwrnod Santes Dwynwen hapus iawn ganol mis Ionawr. Trefnwyd y diwrnod gan y Cyngor Ysgol a chafwyd gweithgareddau amrywiol yn cynnwys peintio calonnau ar wynebâu, gwneud cardiau, addurno bisgedi calon a chwarae gêm Cariad Cudd! Casglodd y Cyngor Ysgol £100 i'w coffrau ac yn y cyfarfod nesaf byddant yn penderfynu beth i'w brynu ar gyfer y dosbarthiadau. Diolch i bawb am gefnogi'r diwrnod. Estynnwn groeso cynnes iawn i Mr Huw Bearman, myfyriwr o'r Brifysgol, a fydd yn treulio cyfnod o 8 wythnos ar ymarfer dysgu yn nosbarth Mrs Sioned Parry.

Carem ddiolch o waelod calon i Paul Evans, tad Iwan Bl 4, am gynhyrchu DVD's o'r sioe Dolig. Rydym wedi gwerthu dros 40 ohonynt gan wneud dros £150 o elw i'r ysgol.

Cynhaliwyd nosweithiau rhieni Dosbarth Mrs Parry ddiwedd mis Ionawr a daeth cynrychiolaeth dda iawn o rieni.

Cafwyd 3 gweithdy addysgol gan y plismon, Neil Williams. Bu'n trafod Bwlio gyda Bl 3 a 4, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gyda Bl 5 a 6, a Llefydd Diogel /Anniogel i Chwarae gyda Bl 1 a 2. Bydd yn ymweld eto cyn hanner tymor.

Diolch unwaith eto i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu a chynnal y Noson Bingo. Diolch i bawb am gefnogi y

noson. Gwnaed elw o £270. Diolch enfawr hefyd i aelodau'r Clwb Ieuencid am eu cefnogaeth.

Derbyniodd yr ysgol gyflenwad o IPADS a throli pwrpasol ar eu cyfer. Hoffem ddiolch o waelod calon i aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am hel gymaint o arian i'r ysgol dros y flwyddyn diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi eu gwaith caled, gan na fyddem wedi gallu buddsoddi yn y dechnoleg newydd hon heb eu hymdrechion.

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Waunfawr ddydd Sadwrn, Chwefror y 15fed. Roedd hi'n braf iawn gweld cymaint o blant a rhieni yng nghyfarfod y pnaun. Bu'n eisteddfod lwyddiannus iawn a phawb wedi gwneud eu gorau glas. Da iawn chwi blant os! Dymunwn yn dda i dim athletau'r ysgol fydd yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Athletau Arfon ddydd Mercher, Chwefror y 19eg.

Bydd y Gwasanaeth Llyfrgell yn cyflwyno sioe Hei Hogia Bach i ddisgyblion yr Adran Iau cyn yr hanner tymor er mwyn annog disgyblion i ddarllen.

Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, Chwefror yr 21ain, ac yn ail agor ddydd Llun, Mawrth y 3ydd. Byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Gwyliau dedwydd i bawb.

COFIO RHIANNON ELLIS

Ar yr ail ar hugain o Dachwedd 2013, bu farw Miss Rhiannon Ellis wedi damwain ger ei chartref, Y Fedw Arian, Ffordd Bethel, Caernarfon. Fe'i magwyd yn Greuor, Llanrug a daeth yn ôl i'w chynefin ar ôl treulio cyfnod yn dysgu yn Ysgol Pentrefoelas lle'r aeth wedi graddio ym Mhrifysgol Bangor. Bu'n athrawes Cymraeg yn Ysgol Brynrefail o Fedi 1958 hyd at Orffennaf 1983, cyfnod o bum mlynedd ar hugain. Roedd yn hoff iawn o drafod llên gwerin a hen chwedlau Cymru yn ei gwersi yn wybodus iawn, a byddai gwersi barddoniaeth am natur neu'r tymhorau yn frith o ddelweddau i sbarduno'r dychymyg. Gofalai am aelodaeth yr Urdd am flynyddoedd lawer ac anogai pawb i ymuno yng ngweithgareddau'r Urdd, boed ar lwyfan neu ar bapur, ac mae tystiolaeth fod cywaith dosbarth wedi dod i'r brig ym Mhrifwyl yr Urdd dro ar ôl tro dan ei harweiniad. Ymfalchiai ym mhob llwyddiant.

Ar ôl ymddeol daliai mewn cysylltiad â nifer o'i chyn ddisgyblion, i ychwanegu at y llu o gyfeillion oes oedd ganddi. Roedd wrth ei bodd yn sgwrsio gyda ni am ein cysylltiadau teuluol yn gysylltiedig ag Ysgol Brynrefail a hen deulu ffarmio oedd yn gyfeillion i'w rhieni yn Greuor yn nyddiau hapus ei phlentyndod. Byddem yn dal i'w chyfarfod yn y cymdeithasau



amryfal y perthynai iddynt, megis Cymdeithas Lenyddol Arfon a Gwyrfaï a pharhaodd i gymryd diddordeb byw mewn cerddoriaeth a llenyddiaeth i'r diwedd gan brynu toreh o lyfrau Cymraeg a phapurau bro. Os oedd cyngerdd neu ddarlith yn y dref, byddai Rhiannon yno, os na fyddai ar wyliau – rhywbeth arall oedd wrth fodd ei chalon. Cafodd bleier mawr hefyd yn mynychu amryfal gyngherddau a digwyddiadau Galeri.

Daeth Rhiannon yn un o aelodau cyntaf Cangen Merched y Wawr, Caernarfon, 45 o flynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Ymaflodd i weithio gan gymryd swyddi amrywiol yn y gangen a bu yn Ohebydd y Wasg am flynyddoedd. Mynychai Wyl y Pum Rhanbarth a'r Gynhadledd Genedlaethol tan yn ddiweddar. Byddai'n helpu'r dysgwyr wrth fynd i sgwrsio â nhw ar ddyddiau penodedig. Roedd Rhiannon yn aelod o'r tîm cwis ddaeth yn fuddugol drwy Gymru yn 2012.

Ymdrechai'n galed i ddod i bob cyfarfod; yn wir roedd gyda ni yn gweld drama ddeuddydd cyn y ddamwain.

Bydd bwlch mawr ar ei hôl, ei sgwrs ddifyr a'i phersonoliaeth annwyl, ond erys ei gwên heintus am amser hir.

Rhiannon Roberts, Caeathro a Margaret Roberts, Caernarfon.

ELLIS - RHIANNON. Dymuna Huw a'r teulu, Talmignedd Isaf, Nantlle, a Thomas Henry ac Yvonne, Drws-y-Coed, Brynsiencyn, ddatgan eu diolchiadau diffuant i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad estynnwyd iddynt yn ystod eu profedigaeth. Bu'r holl ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau a rhoddion hael tuag at Apêl Ambiwlans Awyr Cymru yn gymorth mawr iddynt. Diolch i P.C. Lee McCann am ei gymorth ar ddydd y ddamwain ac i P.C. Raymond Williams am ei ofal o'r teulu yn dilyn y ddamwain. Diolch hefyd i staff Uned Ddamweiniol, Ysbyty Gwynedd ac Uned Gofal Dwys, Ysbyty Stoke am eu gofal arbennig o Rhiannon. Yn olaf ein diolch i'r Parchedig Ronald Williams am y gwasanaeth ddydd yr angladd ac i Iolo a'r cwmni Roberts & Owen, Pen-y-groes am y trefniadau teimladwy ac urddasol.



**PROBLEM GYDACH
CYFRIFIADUR?**

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a
GWELLA EICH CYFRIFIADURON
CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

Galwar boblifanc Gogledd Cymru!

Hoffech chi wneud gwahaniaeth yn eich cymuned? A oes gennych chi syniad da am brosiect atal trosedd fyddai'n helpu eich cymuned i fod yn ardal fwy diogel i fyw ynddi?

Os felly, hoffem glywed gennych.

Mae Trechu Trosedd eisiau cefnogi grwpiau ieuencid rhwng 5 a 25 oed drwy roi grantiau o hyd at £500 iddynt i'w helpu wireddu eu syniad.

* Meddyliwch am broblem, megis bwlio, fandaliaeth, graffiti neu unrhyw fater cymunedol arall a gweithgaredd fyddai'n helpu i'w leihau

* Cwblhewch ein ffurflen gais syml

* Anfonwch eich cais drwy ebost at: enquiries@crimebeatnorthwales.co.uk

Mi fydd Pwyllgor yr Uwch Siryfion yn ystyried eich cais ac yn cysylltu â chi os ydych yn llwyddiannus.

Os ydych yn llwyddiannus yna bydd i fyny i chi wneud i'ch prosiect weithio.

Mae rhagor o wybodaeth am Trechu Trosedd ar gael ar ein gwefan www.crimebeatnorthwales.co.uk



**Côr
PORTH YR AUR
CAERNARFON**

**YN EISIAU
Tenoriaid a Baswyr
i Ymuno â'r Côr Uchod
(A ffurfiwyd i Gystadlu yn
Eisteddfod Dinbych 2013)**

**AM FWY O FANYLION
CYSYLLTER Â GWYNETH**

01286 872 352

Ysgol Brynrefail

Veritate - Scientia - Labore



Gwasanaeth Coffau'r Holocaust

Fe gynhaliwyd Gwasanaeth Coffa'r Holocaust yn Ystafelloedd Cledwyn, Prifysgol Bangor, ar ddydd Llun 27ain Ionawr 2014. Cynrychiolwyd Ysgol Brynrefail gan griw o'r chweched dosbarth ac fe ddarllenodd Huw Owen, prif ddisgybl, addasiad Aled Lewis Evans o gerdd Martin Neimoller.

Mewn gwasanaeth dwys fe oleuwyd kannwyll gan y Cynghorydd Huw Edwards, Cadeirydd Cyngor Gwynedd, gyda'r geiriau:

"Goleuwn y gannwyll hon er cof am bawb a gollwyd drwy weithred ddynol. Fe'i goleuwn fel arwydd o'n bwriad i waredu tywyllwch lle bynnag y'i canfyddir ac o'n hymrwymiad i fyw ar gyfer sefydlu teyrnas nefoedd ar y ddaear."



Tîm Pêl-droed Cymru dan 18

Caio Hywel sydd wedi derbyn llythyr yn ei wahodd i ymuno gyda charfan Cymru dan 18 ar gyfer y gemau yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon. Bydd Caio yn hedfan i Waterford yn y Weriniaeth ar gyfer y ddwy gêm ryngwladol.

Mae pawb yn nheulu Brynrefail yn falch iawn o'i lwyddiant ac yn dymuno pob lwc iddo yn y gemau.



CWPAŊ PÊL-DROED CYMRU DAN 14 YSGOL BOTWNNOG O BRYNREFAIL 2

Yng ngeiriau'r ddau ohebydd, Gethin Thomas a Gwion Jones, fe chwaraewyd y gêm ar 'gae oedd yn riali afiach, cae tatws'.

Yr oedd Mr Holland wedi dewis chwarae system 4, 3, 3 felly 'dim wingars' ac fe chwaraewyd yr hanner cyntaf gyda'r tîm yn 'pasio'n dda' er bod Ysgol Botwnnog 'yn brwydro'n galed'.

Fe gyrhaeddwyd hanner amser gyda Brynrefail yn ennill o 1-0 ar ôl i Gethin Thomas sgorio 'worldie'.

Yn ystod yr ail hanner yr oedd y ddau dîm yn brwydro'n galed ac yr oedd hogiau Brynrefail yn chwarae gyda chyflymdra pasio'r hanner gyntaf. Ond, deg munud o'r diwedd, cafodd Siôn Owen ei yrru o'r cae wrth i'r reffari ddangos cerdyn coch iddo am 'dacl erchyll'.

Achubwyd y gêm yn y munud olaf pan sgoriodd Gethin Thomas 'worldie arall'.

Ac felly bydd Ysgol Brynrefail yn chwarae Ysgol Preseli adref yn y rownd go-gynderfynol.

CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar ennill gwobrau loteri ddiweddar y Gymdeithas.

HYDREF: 1af – Andrew Edwards; 2ail – Dafydd Evans.

TACHWEDD: 1af – Llion Ellis Owen; 2ail – Carys Jones.

RHAGFYR: 1af - O. Stanley Roberts; 2ail – Rolant Wynne.

Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Cyfeillion yr Ysgol yn cael ei gynnal yn Llyfrgell yr Ysgol, nos Lun, Ebrill 7fed 2014 am 6 y.h. Croeso cynnes i aelodau newydd.



GWASANAETH GWOBWRWYO

(Blynyddoedd 7,8 a 9)

Mae'n debyg bod rhai ohonoch sydd yn byw gyferbyn â'r ysgol wedi cael eich byddaru yn son y dathlu ar fore'r Gwasanaeth Gwobrwyo. A'r Neuadd dan ei sang, fe wobrwwyd disgyblion a oedd, ym marn eu hathrawon, wedi gwneud yr ymdrech orau mewn nifer o wahanol bynciau ac agweddau yn yr ysgol.

Pan gyhoeddwyd yr enwau yr oedd gweld y wynebau dan sioc "Pwy fi?" yn gwrthgyferbynnu'n glir gyda wynebau'r cyfoedion oedd yn llawn edmygedd a chefnogaeth.

Mi gafodd dau, sef Tyler Hughes a Ciron Hywel, dystysgrifau arbennig i ddathlu eu cyfraniad unigryw i'r ysgol.

Yn eu tro, fesul dosbarth, fe ddaeth lluo o ddisgyblion i dderbyn tystysgrifau i ddathlu'r ymroddiad yn eu gwaith ers i'r flwyddyn ysgol ddechrau mis Medi

GWASANAETH GWOBWRWYO

Blynyddoedd 10/11

Ymdrechion arbennig – Tom Evans

Cymraeg: Blwyddyn 10 – Math Roberts, Ifan Roberts, Lisa Hughes, Osian Edwards, Caitlin Lamb, Lia Mitchell, Kushla Kingston, Sion Roberts, Karrie Williams, Tara Worbley, Lauren Griffiths, Kelly Thomas, Gwydion Morris.

Blwyddyn 11 - Rhodri Jones, Alaw Prys Huws, Nia Williams, Gwenllian Williams, William Lamb, Lowri Jones, Ceinwen Jones.

Sbaeneg: Blwyddyn 11 – Bethan Davies

Ffrangeg: Blwyddyn 10 - Gwydion Rhys Williams

Blwyddyn 11 - Osian Worth

Saesneg: Blwyddyn 10 - Harri Jones, Arian Sellers-French, Tara Worbley

Blwyddyn 11 - William Lamb, Megan Griffiths, Elin Owen

Gwyddoniaeth: Blwyddyn 10 – Aurny Merridue, Bethan Jones

Blwyddyn 11 – Gwenllian Williams, William Lamb

Mathemateg: Blwyddyn 10 – Math Roberts, Ben Jones

Blwyddyn 11 – William Lamb, Shannon Williams

Hanes: Blwyddyn 10 – Enlli Pritchard, Math Roberts

Blwyddyn 11 – Alaw Hughes, Sion Dylan Williams

Daearyddiaeth: Blwyddyn 10-Amy Evans, Hari Ifans

Blwyddyn 11 – Elin Jones, Dafydd Llewelyn

Addysg Grefyddol: Blwyddyn 10 – Jay Ellis, Nia George, Manon Jones, Catrin Roberts, Gwion John Williams

Celf: Blwyddyn 10 – Jay Ellis, Danny Jones, Morgan Wyn Jones

Blwyddyn 11 – Holly Smith, Ceinwen Jones, Karina Collins

Radio Refail: Blwyddyn 10 - Dafydd Griffiths, Math Roberts, Gwion Wyn Jones, Enlli Pritchard, Gwenno Parry, Hannah Owen, Elain Williams.

Iechyd a Gofal: Blwyddyn 10 – Tesni Schulze, Caitlin Lamb, Sioned Gayther, Amy Evans, Elain Williams, Rebecca Brown

Blwyddyn 11 - Megan Lowe, Shannon Owen, Ceinwen Jones, Kevin Davies, Carly Owen, Tania Jones

Gofal Plant: Blwyddyn 10 – Niamh Jones, Kelly Thomas, Sophie Hughes

Blwyddyn 11 - Elin Owen, Lois Gruffydd, Ellis Jones, Alaw Lewis

Arlwy: Blwyddyn 10 – Ieuan Davies, Gwydion Morris, Lowri Jones, Gwenno Parry, Gavin Roberts, Becky Roberts, Tom Evans, Callum Owen

Blwyddyn 11 - Catrin Jones, Megan Jones, Mared Jones, Celine Roberts, Jason Ellis-Roberts, Bethan Angharad Davies, Loren Roberts, Nia Williams, Twm Pierce, Ffion Jones

Gwrthiannol: Blwyddyn 10 - Jay Ellis, Harri Jones, Gwion Lowe.

Blwyddyn 11 – Shannon Williams, William Lamb, Aled Thompson, Lois Williams, Tania Jones, Ellie Williams, Catrin Williams, Leah Cheeseman, Jordan Eade, Matthew Jones

Graffeg: Blwyddyn 10 - Cathy Jones, Niamh Jones, Sian Roberts



GWASANAETH GWOBWRWYO

(Blynyddoedd 10 ac 11)

Yr oedd gweld wyneb Tom Evans pan alwyd ei enw i dderbyn tystysgrif gyntaf y gwasanaeth yn werth ei weld. Yr oedd y sioc yn amlwg ond yr oedd y gymeradwyaeth wrth iddo gerdded i'r llwyfan i dderbyn ei dystysgrif am ei ymdrech arbennig, yn gynnes a chefnogol.

Ac yn wir dyna oedd hanes pob un ddaeth i'r llwyfan i dderbyn eu tystysgrif am eu bod, ym marn eu hathrawon, wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn eu pynciau. Cafodd pob un ohonynt gymeradwyaeth gynnes.

O Gymraeg i Graffeg, o Ddaearyddiaeth i Ddylunio fe gyd-ddathlwyd llwyddiant ddisgyblion oedd wedi gwneud cyfraniad arbennig yn eu gwahanol bynciau.

GWASANAETH GWOBWRWYO

(Blynyddoedd 7,8 a 9)

Tyler Hughes – Ymdrechion Arbennig

Ciron Hywel – Parodrwydd i Helpu Eraill

Cymraeg: Blwyddyn 7 - Ceris Lloyd, Ynyr Pritchard, Leisa Brown, Elin Worth, Ywain Jones, Ella Jones, Elinor Edwards Jones

Blwyddyn 8 – Sara Williams, Elan Jones, Elin Arwen

Blwyddyn 9 – Ceri Griffith, Tesni Evans, Tyler Hughes

Ffrangeg: Blwyddyn 7 – Elin Worth, Manon Jones, Ynyr Pritchard

Blwyddyn 8 – Thomas Collins, Oscar Peplow, Holly Parry

Blwyddyn 9 – Lisa Owen, Tyler Hughes, Ciron Hywel, Huw Williams, Emily Hampton

Saesneg: Blwyddyn 7 – Ynyr Pritchard, Cora de Silva, Elain Elis, Ceris Lloyd

Blwyddyn 8 – Oscar Peplow, Cadi Panton, Chloe Worbley

Blwyddyn 9 – Georgina Birnie, Ceri Griffiths, Ciron Hywel

Gwyddoniaeth: Blwyddyn 7 – Alis Thomas, Ynyr Pritchard

Blwyddyn 8 - Grace Wooden, Chris Lloyd

Blwyddyn 9 - Ianto Llwyd Jones, Gethin Bryn Thomas, Ceinwen Jones, Rhian Williams

Mathemateg: Blwyddyn 7 – Elin Worth, Iwan Griffith

Blwyddyn 8 - Matthew Wiggins, Catrin Donnelly

Blwyddyn 9 - Llinos Roberts, Megan Thomas

Hanes: Blwyddyn 7 – Ynyr Pritchard, Elen Williams, Iwan Griffith

Blwyddyn 8 – Elin Arwen, Matthew Wiggins, Deion Jones

Blwyddyn 9 – Owain Herd, Rhian Williams, Cerys Jones, Magi Tudur Daearyddiaeth: Blwyddyn 7 – Harry Burman, Cora de Silva, Ynyr Pritchard

Blwyddyn 8 - Grace Wooden, Oscar Peplow, Elin Arwen, Deio Jones

Blwyddyn 9 – Ayse Krakor, William Jones, Huw Williams, Llion Griffith.

Addysg Grefyddol: Blwyddyn 7- Ceris Lloyd, Sara Evans, Elain Ellis, Owain Roberts

Blwyddyn 8 – Sara Williams, Oscar Peplow, Catrin Donnelly, Elin Arwen

Blwyddyn 9 - Elen Williams, Rhianwen Williams, Catrin Walker, Moli Roberts, Gethin Jones, Jessica Williams, Emily Hampton,

Ria Owen, Ceri Griffith, Tomos Morgan, Gruffydd ap Ieuan, Enlli Roberts, Rhian Williams

Celf: Blwyddyn 7 – Osian Hughes, Owain Roberts, Jessica Pritchard

Blwyddyn 8 - Amie Lewis, Grace Wooden, Chloe Worbley

Blwyddyn 9 - Megan Griffiths, Tyler Hughes, Kelly Pitts.

Technoleg: Blwyddyn 7 – Nel Jones, Ella Owen, Rhyddian Williams, Maccsen Llwyd

Blwyddyn 8 – Matthew Birch, Thomas Hughes, Shannen Roberts, Mabon Pritchard, Rachel Franklin, Deio Jones

Blwyddyn 9 – Ayse Karakor, Ciron Hywel, Emily Cookson



Ysgol Gymuned

Fel rhan o'u Thema "Cartrefi" cafodd dosbarth y Cyfnod Sylfaen gyfle i baratoi te bach prynhawn fel yr oedd yn cael ei weini erstalwm. Roeddent wedi anfon gwahoddiad i Mr Rees i ymuno gyda nhw am y te blasus gyda brechdanau a chacennau o bob math.

Eisteddfod yr Urdd 2014 - Mae'r plant wedi bod yn brysur yn paratoi at wahanol gystadlaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Mawrth 8fed.

Daeth Mr Andrew Setatree i gynnal Gwasanaeth Boreol

yn yr Ysgol dydd Llun, Chwefror 3ydd. Diolch iddo am roi ei amser i ddod atom yn achlysurol.

Pnawn dydd Mawrth, Chwefror 4ydd, galwodd Paula Owen, Swyddog diogelwch y ffyrdd, i gael sgwrs gyda phlant y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal cafodd plant BL 3 i 6 gyfle i fynd o amgylch y pentref gyda Gwydion Ap Gwyn i wneud arolwg stryd.

Dydd Iau, Chwefror 6ed, daeth Mark y Consuriwr i'r Ysgol i gynnal Gweithdy "Paid Cyffwrdd Dweud" er mwyn codi ymwybyddiaeth BL 3 a 4 o beryglon cyffuriau, a BL 5 a 6 o beryglon Sylweddau a Chemegau.

Treuliodd Mr Selwyn Griffith sydd yn gweithio gyda Menter yr Ifanc ddwy sesiwn gyda BL 5 a 6 dydd Llun, Chwefror 10fed a dydd Mawrth, Chwefror 11eg. Pwrpas yr ymweliad oedd datblygu sgiliau mentergarwch a masnach byd eang.

Gŵyl Athletau Dan Do - Aeth rhai o ddisgyblion BL 4 5 a 6 i gymryd rhan yn yr Athletau a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Arfon dydd Mercher Chwefror 19eg.

Dathlu - Byddwn yn dathlu dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth 4ydd. Bydd y Plant yn cael cyfle i ddod i'r Ysgol mewn gwisg Gymreig. Byddwn yn cael cinio blasus cig oen Cymreig. Am 2 o'r gloch y prynhawn byddwn yn dathlu gyda'r Gymuned; mae'r Pwyllgor Neuadd wedi trefnu te bach gyda phaned a chrempog a bydd yr adloniant yng ngofal rhai o blant yr Ysgol. Croeso i bawb ymuno â ni.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Ionawr oedd Mrs Eiriona Williams gyda rhif 11 Llongyfarchiadau!

Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i Andrew Settatee o Gynllun EFE am ddiddori'r plant fore Sul, Chwefror 8fed, gyda'r ddameg hynod o addas i'r tywydd a geir y dyddiau hyn, sef 'Y tŷ ar y graig a'r tŷ ar y tywod'. Roedd y plant wrth eu boddau gyda'r symudiadau, y trafod a'r gwaith celf ar y diwedd. Diolch, Andrew.

Wedi seibiant ar Sul Chwefror 23ain oherydd Hanner Tymor, cynhelir Ysgol Sul ar Fawrth 2il.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr yw Cai Oliver, Brynrefail ac Osian Dafydd, Sycharth.

Unwaith yn rhagor atgoffir yr aelodau ffyddlon fod angen adnewyddu tâl aelodaeth Clwb Cant - 50 y mis, siec £6 neu drwy archeb banc. Diolchir i chi i gyd am y gefnogaeth yn 2013. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno - mae'n hwb sylweddol tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned fyrlymus sydd gennym.

Cynhelir pnawn cymdeithasol yn y Neuadd Gymuned ar y cyd â phlant yr ysgol i ddathlu 'Dydd Mawrth Ynyd a Dydd Gŵyl Dewi' ar ddydd Mawrth, Mawrth 4ydd am 2.00 o'r gloch. Ceir eitemau gan y plant a darlleniadau gan aelodau'r pwyllgor, ynghyd â phaned a chrempog, teisen gri a bara brith.

Bu dathlu Gŵyl Dewi y llynedd yn hynod o gymdeithasol, felly estynnir croeso cynnes i chwi rieni, neiniau, teidiau, teulu a ffrindiau ymuno yn y dathlu. Pris mynediad £2.

Cynhelir Hwyl y Pasg ar Ebrill 9fed gyda chyfle i wneud cerdyn, addurno het, addurno wy, bag Pasg ac addurno teisen a theisennau bach. Mae digon o ddeunydd celf a chreffft ar gael yn barod yn y siopau.

Tâl am yr Eco O fis Ebrill ymlaen bydd pris yn Eco yn codi i 60c y rhifyn neu £6 am flwyddyn os telir ymlaen llaw. Mae'r pris yn hynod o resymol o gofio y bydd tudalennau lliw ynddo a chyfanswm o 32 tudalen i gyd. Os dymuna unrhyw un dderbyn yr Eco yn fisol bydd Elizabeth Jones (Ffôn 872421) neu Ann Ifans (872407) yn falch o ddosbarthu i chi ynghyd ag Arnold Jones a Helen Owen. Dymunir diolch i Enlli Williams, 10 oed am gynnig i helpu Anti Liz gyda'r dosbarthu. Diolch iti, Enlli.

ORIEL CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Pryd i bawb

Arlwyo at bob achlysur Yn ynryhw leoliad Bwffe Blasus o Safon

PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD • PARTI • TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN

CERID MACKINNON
(01286) 673190
Symudol 07774 925502

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion Chwefror.

Ward Bethel Cyflwynwyd enw Geraint Elis i lenwi'r sedd wâa a chafwyd ymateb unfrydol i'w wahodd fel aelod o'r Cyngor,

Materion o gofnodion Ionawr

Derbyniwyd ateb Mr Gareth Parry, Pennaeth Ysgol Gwaun Gynfi, yn diolch am y llongyfarchion ar lwyddiant yr ysgol yn yr arolwg.

Swyddfa'r Post Eglurhad nad oes cais derbyniol, hyd yn hyn, am leoliad swyddfa bost yng Nghlwt y Bont.

Arwydd dim cerbydau mawrion Ateb Gwynedd bod yr arwydd yn ffordd Craig Dinas, Penisa'rwaun, wedi ei osod yn y lle anghywir. Gofynnwyd i Wynedd eto am arwyddion felly ger Tan y Gaer a Gors Bach a'u hatgoffa am y bws mawr deithiodd o Gelli Gyffwrdd i Lanrug heibio Eglwys Llanddeiniolen.

Blwch postio ger Tan Gaer Ateb y Post Brenhinol eu bod yn parhau i ystyried ein cais.

Llygredd baw cŵn Cadarnhad Gwynedd y bydd y "Swyddog Trefi Taclus" yn ymweld â'r ysgolion a'r clybiau ieuencid.

Materion eraill

Sylwadau'r aelodau:

- Geraint Hughes – coed yn tyfu drosodd yn Racca a Rhiw Goch – llythyr i Wynedd
 - Sion Jones – Y Prif Weinidog Carwyn Jones yn ymweld â Neuadd Newydd Bethel am 2.00 o'r gloch dydd Iau, croeso i bawb.
 - Carolyn Jones – bin baw cŵn heb ei osod ger "Y Caban" Brynrefail – llythyr i Wynedd.
 - Phyllis Ellis – bin baw cŵn heb ei osod ger Bryn Eglwys, Penisa'rwaun – llythyr i Wynedd.
 - Phylip Jones – ffosydd wedi cau ar ffordd Cefn y Waun a Groeslon Uchaf – cwyn i Wynedd.
 - Elfed Williams – gwaith atgyweirio wedi ei ddechrau ar hyd ffordd Pen Bont, Deiniolen, ac ail-adeiladu'r bont ger "Y Felin" (Cwt y Band) wedi ei ddechrau. Adroddodd ei fod wedi trafod y sefyllfa baw cŵn a gosod poster y bore yma gyda Gwen Alun, Cyngor Gwynedd.
 - Rhian Jones – trefnwyd i Gwen Alun ymweld â Rhiwlas i rannu bagiau baw cŵn ac i drefnu glanhau.
 - Hefin Williams – atgyweirio ar ôl y llifogydd – Gwynedd i barhau â'u gwaith da!
 - Jane Pierce – angen gwella'r wyneb anti skid ger mynedfa Tŷ Mawr, digwyddodd damwain yno yn ddiweddar ac o ganlyniad tynnwyd pen y wal. Y ffordd at Gelli Gyffwrdd mewn cyflwr drwg ac angen ei gwella oherwydd yr holl drafnidiaeth – llythyr i Wynedd.
 - Richard Ll. Jones – y drefn o rannu ceir a pharcio ger Tŷ Mawr a ger Llandygai, ambell gerbyd yn ymylu ar y ffordd – oes modd gosod llinell wen wrth ochr y ffordd i arbed hyn? – llythyr i Wynedd
- Cynllunio Ceisiadau a dderbyniwyd:
- Pant Gwyn, Fachwen – dymchwel estyniad presennol a chodi un newydd ynghyd â gosod tanc septig.
- Cae Goronwy, Fachwen – codi estyniad to pits
- Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4ydd o Fawrth.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain o Ionawr:

Penderfynwyd ysgrifennu llythyr i ddiolch i Gwmni J.M. Jones a'i Feibion am gael arddangos y goeden Nadolig ac am y trydan a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod. Cytunwyd i glustnodi arian ar gyfer cael goleuadau i goeden Nadolig Cwm y Glo y flwyddyn nesaf.

Cafwyd adborth am gyfarfod Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yng nghwmni Mr W Roddick, Heddlu Gogledd Cymru. Dywedodd fod Mr Roddick wedi canmol y gwaith mae'r Cyngorydd Charles Jones a'r Cyngorydd Gethin Williams yn ei wneud ar yr awdurdod Heddlu. Dywedodd bod 50 o heddweision newydd wedi eu cyflogi yn ystod 2013-14 a bod dirprwy newydd iddo ef wedi ei benodi yn ddiweddar. Roedd wedi rhybuddio bod ganddynt £3 miliwn yn llai o gyllideb eleni.

Rhannwyd copi o'r llythyr a yrrwyd i Gyngor Gwynedd fel ymateb i'w Cynllun Datblygu a phenderfynwyd y byddai copi yn cael ei yrru at Gymdeithas yr Iaith.

Cafwyd adborth am ddogfen am effaith melinau gwynt a bod ymgynghoriad pellach am ei gynnal ar yr ymgynghoriad blaenorol!

Dywedwyd nad oedd unrhyw waith wedi ei wneud gan gwmni Celtic Souza yng nghae chwarae Glanmoelyn. Penderfynwyd gysylltu gyda'r cwmni yn gofyn iddynt dynnu'r gawell beryglus i lawr ac i orffen y gwaith erbyn gwyliu hanner tymor Chwefror. Roedd pryder nad oedd penderfyniad terfynol wedi ei wneud am y gwaith sydd angen ei wneud yn y cae ac am y llwybr sydd angen ei greu yno.

Penderfynwyd ysgrifennu at y Warden Cŵn i ddweud bod cŵn yn cael eu gadael yn rhydd yng nghae Nant y Glyn. Penderfynwyd hefyd i ofyn i'r Warden archwilio llwybr Rhos Ddu gan bod sawl cwyn wedi ei dderbyn am berchennog yn gadael ei gi bygythiol yn rhydd ar hyd y llwybr.

Penderfynwyd hysbysu'r Swyddog Llwybrau fod coed yn tyfu ar draws y llwybr cyhoeddus ger Y Fricsan, a bod cyflwr llwybr Rhos Ddu yn druenus iawn gan fod dŵr, coed a cherrig ar ei hyd. Penderfynwyd gofyn a allai'r Giang Gymunedol fynd yno i dacleso. Dywedwyd fod y llwybr rhwng stad Glanffynnon a Ffordd Llanberis yn flêr iawn ac angen ei lanhau a'i glirio a bod bod y ffens o amgylch safle hen garej Hafod hefyd yn beryglus.

Dywedwyd bod problem sbwriel tu allan i siop Londis a'i bod yn dal yn anodd i fysiau basio ar hyd y ffordd y tu allan i'r siop pan mae ceir wedi eu parcio yno. Nodwyd hefyd siomedigaeth bod nifer o staff newydd y siop yn ddi-Gymraeg a phosteri y siop yn uniaith Saesneg. Penderfynwyd ysgrifennu at y siop i ofyn a oes ganddynt bolisi iaith ac i ofyn iddynt sicrhau bod llefydd gwag o flaen y siop ar gyfer dadlwytho fel nad yw'r ffordd o flaen y siop yn rhwystro bysiau ac unrhyw gerbydau'r gwasanaethau brys a fyddai eisiau ei defnyddio.

Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i gysoni'r caniatâd ynghyd ag ymestyn tymor aros ym Mharc Carafannau Tyn y Coed, Llanrug o 1af Mawrth hyd at 10fed Ionawr yn y flwyddyn ganlynol.

Cyflwynwyd syniadau ar gyfer cyllideb ddrafft 2014-15. Trafodwyd rhain a dywedodd y Clerc y byddai yn paratoi cyllideb ddrafft ar gyfer cyfarfod mis Chwefror. Penderfynwyd rhoddi grant o £2,100 i Sefydliad Coffa Llanrug a £100 i Radio Ysbyty Gwynedd (ar ôl cael mantolen ganddynt)

Datganwyd pryder am wal yn y fynwent a byddai archwiliad yn cael ei wneud. Penderfynwyd rhoddi nodyn ar yr hysbysfwrdd yn dweud bod y Cyngor yn derbyn rhoddion tuag at gostau rhedeg y fynwent. Hefyd, fe benderfynwyd trafod gyda'r ymgymerwyr pe byddai modd dweud wrth deuluoedd y bydd y tir yn cael ei lefelu ar ôl blwyddyn os na fyddai carreg fedd wedi ei gosod er mwyn hwylyso torri gwair yno. Penderfynwyd pasio'r pryder am eiddew yn tyfu drosodd yn Nhyddyn Elan ac am y coed yn tyfu yn uchel iawn yno ymlaen i'r Adran Prifffyrdd.

Penderfynwyd gwneud cais am grant i gael cyfarpar newydd i gae chwarae Nant y Glyn.

DODREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
PRISIAU CYSTADLEUOL
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

YN EISIAU DYNION

i YMUNO a
Côr Meibion Dyffryn Peris
Pob Oed A Phob Llais

YMARFER AR NOS LUN YN Y
MYNYDD GWEFRU LLANBERIS

7.30
O'R GLOCH

CYSYLLTWCH A
IFOR JONES 01286-870190

Cylch Meithrin

Croeso i'r pump plentyn newydd sydd wedi ymuno gyda ni yn y Cylch ers mis Ionawr. Maent wedi setlo yn dda iawn gyda gweddill plant sesiwn y bore.

A yw eich plentyn yn ddwy a hanner rhwng mis Medi 2014 a mis Awst 2015? A yw eich plentyn am fynychu'r Cylch Meithrin? Dewch i gofrestru rhwng 9yb ac 11yb dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Mae manylion pellach ar gael gan Dilwen Williams, arweinydd y Cylch.

Profedigaeth

Cydymdeimlir yn ddwys gyda theulu'r ddiweddar Mrs Elinor

Morris, Ffordd Deiniol, a fu farw'n frawychus o sydyn yn ddiweddar.

Lleisiau Llanbabs Dymuna Lyndsey, Eleri a holl blant Lleisiau Llanbabs ddiolch i bawb am gasglu tocynnau 'Wish' o'r Daily Post. Casglwyd £17,432 o docynnau a chafwyd £206.64 o arian. Diolch i bawb.

Diolch Dymuna John Ellis Morris, Rhiwen, ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 100 oed yn ddiweddar. Diolch yn arbennig am ymweliad Côr Lleisiau Llanbabs a'r fflôt Nadolig!

CANRIF GŴR Y RHIWEN



Ar bnawn diflas o ran tywydd, ar yr ail ar bymtheg o Ionawr euthum draw i weld John Ellis Morris ar ei aelwyd yn Rhiwen, Deiniolen. Roedd ei gyfarchiad yn llawn asbri, edrychai yn rhyfeddol o dda ac yntau, ar yr ail ar hugain o Ragfyr, wedi dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Cyn i mi eistedd i lawr o flaen tanllwyth o dân, soniodd wrthyf ei fod wedi bod wrthi yn llwyddiannus cyn i mi gyrraedd yn trwsio nam oedd ar y teledu ac roedd yn awyddus i mi gael gwybod ei hynt a'i helynt y diwrnod cynt. Hefo Gwyn, y mab ieuengaf, roedd wedi bod yn siopa yn yr archfarchnad yng Nghaernarfon, picio draw wedyn i Frongoch am ginio ac yna siopa draw ym Mhorthmadog cyn galw heibio i Feddgelert cyn dychwelyd. Nid oedd unrhyw flinder wedi dod i'w ran, dim ond mwynhau mynd allan am dro yng nghwmni un o'i feibion.

DYDDIAU CYNNAR

Gwelodd John olau dydd gyntaf yng nghefn Cynfi House, gerllaw Ysgol Llandinorwig, dwy ystafell oedd i'r tŷ. Roedd yn un o chwech o blant i Hugh a Jane Morris; y plant oedd Iorwerth, John, Olwen, Dic, Clara a Morris Wyn. Dim ond John sydd wedi goroesi. Hanai ei dad o aelwyd Bwlch Uchaf, i fyny'r allt o'r tŷ. Roedd ei nain a'i daid, (rhieni ei dad) sef Edward Ffowc a Jane Elin Morris, yn byw yn Rhiwen, a thad Jane Ellin a gododd y tŷ. Yn drist iawn yn y Rhyfel Byd Cyntaf cafodd dau fab iddynt, sef Richard a Iorwerth, eu lladd o fewn pum niwrnod i'w gilydd. Yn achos Iorwerth, bu farw ar y diwrnod cyntaf ar dir Ffrainc ac yntau ond yn ddeunaw oed. Cofiai John, tra yn Cynfi House, mai yn afon Caledffwrdd gerllaw y byddai'r dillad yn cael eu rinsio. Daw i gof hefyd iddo drio smocio, er yn ifanc, ond llosgodd ran fechan iawn o'i wyneb wrth wneud a theimla o hyd ôl y ffolineb hwnnw. Ni wnaeth John smocio erioed, gyda llaw, ac nid aeth unrhyw alcohol gwerth siarad amdano, dros ei wefusau chwaith.

Pan yn bedair oed, symudodd y teulu i aelwyd cyfagos Tanfoel ar waelod Gallt y Foel, ac yn hon yr oedd pedair ystafell. Ond yn hynod drist pan oedd John yn ddeg oed bu farw ei fam yn 39 mlwydd oed a hynny o niwmonia neu llid yr ysgyfaint. Ergyd drom oedd hon ac mae Jane yn gorwedd ym mynwent Macpela. Syrthiodd y gwaith o fagu a chynnal y teulu ar ei dad gyda chymorth taid a nain.

Disgrifia John ei dad fel "gŵr caled ei ffordd a'i agwedd ac roedd yn llym yn ei ymddygiad."

Yng nghanol y Rhyfel Cyntaf, ac yntau yn 4 oed, dechreuodd fel disgybl yn Ysgol Eglwys Llandinorwig.

Adlewyrchai tldi'r ysgol y gymdeithas dlodaidd chwarelyddol o'i chwmpas, ond roedd gofal serch hynny o'i mewn.

Y darlun sydd ganddo yno yw mai athrawon mewn oed, gwragedd yn bennaf, oedd yn dysgu. Nid oedd llawer o wres i gynhesu pawb yn iawn, roedd llygod o dan y lloriau ac aethai'r plant â bwyd eu hunain yno.

Beltiau Du

Cicbocsio Ar ôl treulio amser yn ymarfer yn nosbarth Master Jake Fitzpatrick 3ydd dan a Mistress Elena Fitzpatrick 2il dan yng nghlwb Tregarth o 6.30 tan 8.30 ar nosweithiau Mercher, ac yng nghlwb Master John M. Jones 1af dan ar nosweithiau Llun a Gwener o 7.00 tan 9.00 a hefyd teithio i lawr i Lundain i ymarfer gyda Grand Mistres Trish Chang 7fed dan lawer gwaith, daeth yr amser i Julie Ann Jones a Lee Williams o Ddeiniolen deithio i Lundain i raddio am y belt du.

Ar ôl diwrnod caled o raddio a thrafaelio yn ôl adref i Gymru roedd rhaid disgwyl tair wythnos am benderfyniad y grand Master C.K. Chang.

Ar ôl tair wythnos hir daeth y llythyr gyda'r penderfyniad i ddweud bod Julie a Lee wedi pasio eu gradd. Llongyfarchiadau i'r ddau oddi wrth y ddau glwb.

Croeso cynnes i bawb sydd efo diddordeb gysylltu gyda John M. Jones ar 07836609833 neu 01286871694 neu Jake Fitzpatrick ar 01248602416.



Dau felt du cyntaf i Glwb WV Shu Kwan Cicbocsio Tseineaid Penisarwaun.

Julie Ann Jones (chwith) a Lee Williams (dde) gyda John M. Jones yn y canol.

Saesneg oedd cyfrwng yr addysg fel ymhob ysgol arall ymhobman, ond roedd pawb yn meddwl y byd o'r ysgolfeistr, sef Mr John Roberts, a fu yno o 1900 hyd 1933. Disgrifia John ef fel “gŵr bonheddig, yn Eglwyswr i'r carn ac yn arddwr penigamp.” Byddai'n rhoi gwersi garddio gwerth chweil i'r disgyblion –gwersi a fu o fudd i John weddill ei oes.

OES GWEITHIOL

Yn 14 oed, dechreuodd John weithio yn Chwarel Dinorwig a hynny ym Mhonc Abyssinia ac roedd gan y chwarel ei threfn gweithiol ym mlynnyddoedd cynnar pob chwarelwr ifanc. Rybelwr oedd John ar y cychwyn a dyma ddeuai i ran pob bachgen newydd yn y chwarel, sef dysgu'r grefft o hollti a naddu.

Dibynnai'n gyfan-gwbl am ei ddeunydd ar ewyllys da y chwarelwyr. Ei oriau gwaith oedd rhwng hanner awr wedi saith y bore a phump y prynhawn a byddai'n gweithio hyd hanner dydd ar fore Sadwrn. Yn 15 oed roedd John yn Jermon, hynny yw, prentis chwarelwr i rai rhwng 15-21 oed. Ei waith oedd naddu cerrig i'r chwarelwr a ystyrid fel ei hyfforddwr a'i feistr “naddu wrth y dydd” fel y dywedwyd yn y Gwaith.

Yn un ar hugain oed, gweithiai Fargen hefo'i dad a hynny ar wyneb o graig chwe llath o led; bargeiniwyd am y pris gyda'r gosodwr bargeinio, y stiward gosod fel y cyfeirid ato.

Yn anffodus daeth damwain i ran ei dad wrth i rwbwl neu gwmp (sef tunelli o graig yn ymryddhau ac yn cwmpo) ddisgyn arno. Cafodd niwed sylweddol i'w gefn a'i droed a thorriwyd un o'i glustiau yn ei hanner. Bu yn Ysbyty'r Chwarel am rai wythnosau ond dychwelyd yn ôl i'r Gwaith a gwneud gwaith ysgafn yn y sied a wnaeth. Treuliodd John ddeugain mlynedd yn y Chwarel gan orffen ym Mhonc Penrhydd Bach. Cofia am y llu straeon, am yr hiwmor arbennig, am y cyd weithwyr direidus ond, yn bennaf, am y gwmniaeth nad oedd ei gwell yn unman. Aiff ei feddwl yn ddyddiol i'r Chwarel, yn wir mae'n byw o hyd yno, a daw atgof am yr hogia yn fyw iddo fel ddoe ac yntau bellach yr olaf un o'i linach sy'n fyw.

“Yn aml,” medd John, “rwyf yn enwi pawb a gofiau pan oedd y Chwarel yn mynd a oedd yn byw o Blue Peris yn Ninorwig i Pentir, gan mai hogia Chwaraol oedd yn byw yn y tai.”

Gadawodd y Chwarel i fynd i weithio i Gyffordd Llandudno ac i ffatri Hotpoint ond daeth yn ôl i'r Chwarel yn ystod ei dwy flynedd olaf cyn i'r cyfan ddod i ben yn 1969. Cynhyrchu peiriannau golchi oedd Hotpoint a theithiai yno yn fan Robin o Ddinorwig, a chydag ef daw i'r cof Iorwerth ei frawd, Dafydd Parc, Ellis Wyn, Alun Wyn, Twm Lloyd ac eraill.

Pan yn y Coleg bûm innau yn gweithio yn ystod yr haf yng Nghyffordd Llandudno a hynny gyda chwmni bananas. Teithiwn innau yn fan Robin o Faes Eilian, Dinorwig, a rhannwn fanas yn aml gyda'r criw, fel yr atgoffodd John fi!

Hoffai John weithio yn y nos yn y ffatri a gwnaeth hynny am dair blynedd. Treuliodd ddeng mlynedd olaf ei oes gweithiol fel Gofalwr Ysgol Gwaun Gynfi yn Neiniolen ac roedd wrth ei fodd yn y swydd hon ymysg y plant a'r staff. William Eames oedd y prifathro – “y gorau ar y ddaear” oedd disgrifiad John ohono gan iddo dderbyn parch a charedigrwydd ganddo gydol ei gyfnod yn yr ysgol. Hyd heddiw mae'r plant oedd yn yr ysgol yn ffrindiau

iddo a llawer wedi cofio amdano pan ddaeth yn gant oed. Rhaid oedd ymddeol o'r swydd yn 65 oed .Mae wedi ymddeol bellach er 35 mlynedd.

Y TEULU AMWY O ATGOFION

Yng Nghapel Pentir, pythefnos cyn i'r Ail Ryfel Byd gychwyn yn 1939, y priododd John ac Elizabeth Morris gyda'r Parch Elias Hughes yn gwasanaethu. “Trysor o wraig” oedd disgrifiad John o'i briod. Yng nghae pêl-droed dinas Bangor, yn Ffordd Farrar, y cyfarfu'r ddau a hynny mewn Sycas a oedd wedi ei lleoli ar y cae am rai dyddiau. Ar ôl priodi, aeth y ddau i fyw i Tanfoel am naw mlynedd gan ei wneud yn ddel, cyn symud i'r aelwyd bresennol sef Rhiwen. Yn Tanfoel y ganed y ddau fab, Haydn a Gwyn. Chwaer i nain John oedd yn Rhiwen, sef Anti Maggie, fel y'i galwai, a'i phriod Ifan Roberts a oedd yn hynod ffyddlon yng Nghapel Maes y Dref yn Neiniolen.

Yng Nghapel Cefnywaun yn Neiniolen yr oedd John a'i briod yn aelodau, cyn i'r addoldy gau rhai blynnyddoedd yn ôl.

Collodd John ei briod cyn y Nadolig ddeunaw mlynedd yn ôl ond er ei golled fawr mae wedi ymdrechun dda.

Bellach mae John wedi byw yn Rhiwen ers 63 o flynyddoedd. Disgrifia ei hun fel tyddynwr gan iddo gadw defaid, gwartheg ac ieir; gwnaeth ddefnydd helaeth o'i ardd fawr, bu'n cadw gwenyn ac roedd y tŷ gwydr yn holl bwysig iddo, a deil felly. Dotio a wna pawb at lendid a thaclusrwydd Rhiwen, gyda phopeth yn ei le.

Bob dydd, mae John ar ei draed am saith y bore a'i frecwast yw uwd a thair brechdan marmalêd a phaned o de - mae'n barod wedyn i glirio'r grât a gwneud tân. Mae'n ddiolchgar i Einir, gwraig Gwyn y mab, am baratoi bwyd iddo ac mae'n bwyta a chysgu'n dda. Bydd yn ddarlllen ei bapur yn ddyddiol. Ei hoff raglenni teledu yw rhaglenni yn ymwneud â byd natur, rasys cŵn defaid, gan iddo hyfforddi cŵn defaid, a snwcer.

“Hyd yn hyn,” medd John wrthyf, “mae fy iechyd yn dda, mae'r meddwl yn glir, rwy'n gallu cerdded a mynd o gwmpas ac mae'r ffaith i mi fod wrthi'n gweithio'n galed yn siŵr o fod o help”.

Diwrnod llawn cyffro oedd dydd ei ben-blwydd yn gant oed. Daeth ei deulu oll ynghyd a mwynhawyd pryd o fwyd yn Seiont Manor. Derbyniodd ymhell dros ddau gant o gardiau ac yn eu mysg, un gan y Frenhines, Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Cymru. Mae'n ddiolchgar i bawb am bob cerdyn a chyfarchion. Uchafbwynt y diwrnod iddo, oedd cael ieuencid “Lleisiau Llanbabs” yn canu yn nrws Rhiwen; rhoes hyn fwynhad mawr iddo ar ei ddiwrnod arbennig.

Diolcha John i'w gymdoges, Mrs.Edith Thomas, am fod mor barod ei chymwynas; roedd ei phriod, Bleddyn, yn gyfaill mawr i John a theimla ei golli o hyd.

Mae Gwyn y mab ieuengaf a'i briod Einir yn byw ym Mhorthaethwy tra mae'r mab hynaf, Haydn a'i briod Jennifer, yn byw yn Birmingham er 45 o flynyddoedd.

Mae John yn daid i Emyr, Sian a Ruth ac yn hen daid i Ciara, Bethan, Niamh a Mabel. Pen-blwydd hapus iawn i John ar aelwyd Rhiwen yw ein dymuniadau oll ym mro Eco'r Wyddfa.

Idris Thomas.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD

LLWYDDIANT OFFERYNNOL

Dydd Sadwrn, 8fed o Chwefror, yn Galeri, Caernarfon, cynhaliwyd Pencampwriaethau Unawdau, Deuawdau a Grwpiau Bandiau Pres Gogledd Cymru. Dau sy'n amlwg ym myd y Bandiau Pres oedd yn beirniadu, sef Stan Lippeatt a'i wraig, Christine, ac roeddent yn canmol y safon uchel.

Roedd mynd mawr ar y cystadlu drwy'r dydd gyda 160 o gystadleuwyr. Dyma'r nifer uchaf o gystadleuwyr yn hanes y gystadleuaeth. Hyfryd oedd gweld rhieni a ffrindiau yn cefnogi'r plant a'r ieuencid.

Yr oedd nifer dda o Fand Ieuencid Deiniolen yn cystadlu a ddaeth llwyddiant i ran Elin Dafydd (2il o dan 10); Ela Williams (3ydd rhwng 10 a 12); Elliw Owen (4ydd rhwng 10 a 12); Dylan Efans (5ed rhwng 10 a 12); Megan Euros Jones (8fed rhwng 10 a 12); Tomos Efans (1af rhwng 12 ac 14); Lois Angharad White (2il rhwng 12 ac 14); Bethan Mault (4ydd rhwng 12 ac 14); Dafydd Euros (7fed rhwng 12 ac 14); Deian Williams (8fed rhwng 12 ac 14);

Kyle a Twm (4ydd deuawd dan 14); Elliw a Dylan (3ydd deuawd dan 14); Bethan Mault (7fed yn yr air varie dan 14); Ela Williams (3ydd yn yr air varie dan 14); Lois Angharad White (5ed yn yr air varie o dan 14); Iago Davies (1af rhwng 14 ac 16); Iago Davies (5ed yn yr Air varie dan 18);

Kyle, Twm, Bethan, Elis a Jac (5ed yn y grŵp offerynnol dan 14); Dafydd, Ela, Lois a Tomos (2il yn y grŵp offerynnol dan 14); Glyn, Megan, Malan, Erin a Cai (1af yn y grŵp offerynnol dan 14); William, Richard, Deian, Iago a Dafydd (1af yn y grŵp offerynnol dan 18); Urien Sion Huws (2il dros 18).

Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant ac i bawb a gystadlodd. Diolch i Osian, Hefin, Llio ac Elin am hyfforddi'r ieuencid ac i Lois am gyfeilio. Diolch iddynt am eu gwaith caled. Diolchir yn ogystal i Meirion am gyflwyno holl gystadlu'r dydd.

Eleni cyflwynwyd Tlws Coffa Iwan Williams i Elgan Skiller o Llancuain am y chwaraewr mwyaf addawol tu allan i'r gwobrau yn adrannau 1 a 2.


Hoffai'r Seindorf Ieuencid groesawu 7 aelod newydd i'w plith, sef Carwyn, Aron, Elis, Iolo, Celt, Bedwyr ac Ela. Bellach mae 33 aelod yn y Seindorf Ieuencid a 25 yn y Band Iau. Cystadleuaeth nesaf y Seindorf Ieuencid fydd Cystadleuaeth Ymdeithgan yn y Drenewydd ar y 15eg o Fehefin fel rhan o'i dathliadau carnifal. Dyma'r tro cyntaf i'r band Ieuencid gystadlu yn y gystadleuaeth a phob lwc iddynt!!

Ar hyn o bryd mae Seindorf Arian Deiniolen yn brysur yn paratoi tuag at Bencampwriaeth Cymru yn Venue Cymru, Llandudno ar y 15eg o Fawrth. Dyma'r tro cyntaf i'r gystadleuaeth rhanbarthol ddod i'r Gogledd.

Cymdeithas Undebol Deiniolen Cyfarfu'r aelodau yn Nhŷ Elidir ym mis Ionawr ar noson wlyb ac oer ond, er gwaethaf y tywydd mawr, daeth nifer dda yno o dan lywyddiaeth Mr John Ll. Williams.

Cafwyd noson ddifys dros ben yng nghwmni Mr Gareth Roberts, Gallt-y-Foel. Dechreuodd ei ddiddordeb mewn cerdded ar ôl iddo gael trawiad ar y galon a chael triniaeth mewn ysbyty ym Manceinion. Soniodd am y daith gerdded ar yr hen ffordd Rufeinig i Gaer a, thrwy driciau ar ei gyfrifiadur, daeth â syniad inni am y Ffynnon yng Nghegin Arthur, rhwng Penisarwaun a Ddeiniolen.

Hefyd cawsom weld hen luniau o'r pentref a'i drigolion a chawsom wahoddiad i fynd ar ei amryw deithiau cerdded gydag ef. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mr John Ll Williams.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

As Yn Galw Ar Lywodraeth San Steffan I Roi Aelwydydd Bregus Ar Dariff Cymdeithasol

Mae Tlodi Tanwydd Yn Arwydd O Fethiant Y Llywodraeth I Ddelio Â Monopoli Y 'Chwech Mawr' Medd As Arfon Hywel Williams

Mae Aelod Seneddol Plaid Cymru Arfon, Hywel Williams, wedi beirniadu'r Llywodraeth am beidio gwneud digon i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd i gynhesu eu cartrefi y gaeaf yma, wrth i ffigyrau ddangos bod y bwlch rhwng biliau ynni a faint y gall pobl wirioneddol ei fforddio wedi dyblu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Roedd Mr Williams yn siarad yn dilyn lansiad 'Ymgyrch Tlodi Tanwydd Turn2Us', sy'n codi ymwybyddiaeth o'r penderfyniadau anodd sy'n wynebu nifer o deuluoedd y gaeaf yma, sy'n ei chael hi'n anodd cadw eu cartrefi yn gynnes a rhoi bwyd ar y bwrdd, gan ofni methu talu eu biliau ynni.

Dywedodd Mr Williams,

"Tra bod y Llywodraeth Toriaidd/Democrat Rhyddfrydol yn Llundain yn dangos diffyg diddordeb llwyr i reoleiddio monopoli y cwmnïau ynni mawr, mae pobl yn Arfon yn gorfod cadw llygaid barcud ar eu cyllideb tra bod pobl hŷn a'r rhai mwyaf bregus yn ein cymuned yn gorfod dewis rhwng cadw'n gynnes neu fwyta.

Rwyf wedi galw sawl gwaith ar y bobl hynny sy'n dioddef o dlodi tanwydd i gael eu heithrio o'r farchnad au rhoi ar dariff cymdeithasol gorfodol. Dylai cwmnïau ynni gael eu gorfodi i roi'r mwyaf bregus yn ein cymuned ar dariff cymdeithasol. Byddai hyn yn rhoi cymorth i'r bobl sydd ei wir angen ar sail eu sefyllfa a'u hangen yn hytrach na dioddef oherwydd amharodrwydd a diffyg gweithredu y Llywodraeth."

Dengys ffigyrau gan ymgyrch Tlodi Tanwydd Turn2Us bod y bwlch rhwng biliau ynni a faint mae pobl yn gallu fforddio ei dalu wedi cynyddu i £438 mewn deng mlynedd – roedd y ffigwr yn £248 yn 2003. Mae ystadegau sy'n cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod oddeutu 400,000 o bobl yng Nghymru yn debygol o ddioddef o dlodi tanwydd yn 2014 o gymharu â 140,000 y llynedd.

Ychwanegodd Mr Williams,

"Mae Arfon yn ardal fynyddig, lle mae tymheredd yn y gaeaf yn aml yn gostwng yn is na 0°C. Bydd pobl fregus sy'n byw ym Methesda neu Dinorwig yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynydd mewn prisiau ynni. Gyda thoriad mewn cyflogau a teuluoedd eisioes yn brwydro yn erbyn y cynydd yng nghostau byw, does dim syndod bod mwy a mwy o bobl yn cael eu gorfodi i dlodi tanwydd.

Mae aelwydydd Cymru yn haeddu gwell safon byw a Plaid Cymru yw'r unig blaid sy'n rhoi buddiannau Cymru yn gyntaf. Mae angen newid radical er mwyn sicrhau costau is hir-dymor.

Dyna pam fo Plaid Cymru eisïau gweld cwmni ynni mewn perchnogaeth gyhoeddus, Ynni Cymru a fyddai'n ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau a chynnig prisiau tecach i gwsmeriaid. Dyma'r unig ffordd i ddelio â'r argyfwng ynni."



CARPEDI • VINYLs • TEILs
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Ein Gwir Hanes

Ar hyn o bryd mae Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog Fawr yn ymgyrchu'n galed, gyda chefnogaeth Cylch yr Iaith a nifer o unigolion, i newid, mwy neu lai yn llwyr, yr hyn a 'ddysgir' yn ysgolion ein gwlad am hanes ein pobl. Rydym oll yn gyfarwydd ag 'Oes y Tuduriaid', 'Oes Victoria' a 'Kings & Queens'. Y mae 1066, 1485 a 1815 yn llawer mwy cyfarwydd i blant Cymru, ysywaeth, na 1282, 1400, 1762 a 1962. Geilw'r Ganolfan am ddileu y rhaglenni dysgu presennol a sefydlu cwricwlwm newydd, Cwricwlwm Cymru, fydd, nid yn unig yn edrych ar y byd a'i hanes o safbwynt Cymreig, ond hefyd yn dysgu gwir hanes Cymru yn drwyadl i bob un disgybl yn ein gwlad. Eisoes bu rhai o aelodau'n Pwyllgor yn cyfarfod â rhai o wleidyddion Llywodraeth Cymru er gwthio'r cwch hwn i'r dŵr a rhoi i ysgolion Cymru raglen sydd yn wir deilwng o urddas cenedl.

I gyd-fynd â'r ymchwydd hwn yn y pryder sydd ar lawr gwlad ynglŷn â diffyg gwybodaeth affwysol plant (a phobl) Cymru o'u hanes eu hunain, bydd y Ganolfan Hanes yn trefnu o leiaf tair ysgol Sadwrn bob blwyddyn i gyflwyno cyfnodau ac agweddau o hanes Cymru i'r sawl a'u myn. Eisoes yr Hydref diwethaf cyflwynwyd chwe awr o 'ddarlith' ar holl hanes Cymru, o'r cychwyniadau Neolithig hyd at y flwyddyn 2013, a hynny gan ddeuddeg o siaradwyr gwybodus, huawdl a difyr, pob un â'i gyfnod, heb golli'r un flwyddyn. Tipyn o gamp yn wir, fel y gall neuadd, oedd dan ei sang o wrandawyr brwd, dystio. Yn ddilyniant, trefnwyd tri digwyddiad eleni. Sonnir yma'n unig am y cyntaf ohonynt a gynhelir ar yr 8fed o Fawrth.

Mae nifer o ysgrifenyddwyr a meddyllwyr Cymreig wedi dadlau droeon fod yr hyn a alwn yn 'Brad y Llyfrau Gleision' (1847) yn drobwynt seicolegol hollbwysig yn hanes y meddwl a'r

meddylfryd Cymreig. Daliwn hyd heddiw i fedi gwaseidd-dra'r dwthwn hwnnw, gyda phobl Cymru, er efallai'n ddiymwybod, yn parhau i fod yn ufudd i'r byd a'r seice Prydeinig, 'teyrngar' ac ufudd, gyda'r canlyniad bod dod ymlaen yn y byd mawr Eingl-Americanaidd yn rhywbeth llawer, llawer rhagorach nag unrhyw ludw y gall yr hen Sinderela Gymreig ddiflas a thlawd ei gynnig.

Byddwn yn clywed hanes y Comisiynyddwyr a'u Llyfrau a'u Brad gan yr hanesydd o Benmachno, Eryl Owain. Ac yna, hanes unigryw lorthryn Gwynedd a'i waith data rhyfeddol yn ardal Caereinion gan Dr Gwawr Jones, Bangor. Y trydydd siaradwr fydd Dr John Glyn, Llanllyfni, fydd yn cloriannu effaith y Brad hyd at ein dyddiau ni. Neilltuir digon o amser ar gyfer cwestiynau, sylwadau a thrafodaeth. Bydd yma wledd i'r sawl sydd yn caru Cymru. Dewch yn llw!

Manylion

Dydd Sadwrn, Mawrth 8fed, 2014 ; dim tâl mynediad

10.15-10.30 Cofrestru

10.30-12.00 Yr hanes. Cynnwys y Llyfrau Gleision. Iorthryn Gwynedd.

12.00-13.00 Awr ginio anffurfiol (pawb i ddod â'i fwyd ei hun: paned ar gael).

13.00-14.30 Cymhwyso'r dystiolaeth: y gwersi i ni heddiw: trafodaeth.

I gofrestru cysylltwch â ni:

ffôn 01286 660 546 / 853 / 655

e-bost: canolfanuwcgwyrfaei@gmail.com



Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i yrwyr
dros **21 oed!**



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio gdi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

MOTION & EMOTION



PEUGEOT

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Prîs ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaerdal £1,586.25, 35 taliad misol o £169.00, cost credit a ffordd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y gair neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigurau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyr (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4-34.9 (3.6-8.1), Extra Urban 88.2-62.8 (3.2-4.5), Combined 83.0-48.7 (3.4-5.8) a CO2 87-135.

Un funud fach ...

DEWI A'R LLEILL

Heb os, fe adawodd y seintiau eu hól ar Gymru. Mae'r holl lannau sy'n dwyn eu henwau ar hyd ac ar led y wlad yn dangos hynny. O Lanbadarn i Lanberis, o Landdewi i Landdeiniolen, o Landudno i Landwrog mae enwau'r saint yn dal yn gysylltiedig â'n pentrefi a'n cymunedau. Erys yr enwau yn dystiolaeth barhaol i bresenoldeb a llafur y dynion hyn, a oedd yn byw mor bell yn ôl â'r bumed ganrif, yn ein gwlad. Ail hanner y ganrif honno, a'r chweched ganrif ar ei hyd oedd y cyfnod a alwn ni bellach yn Oes y Saint. Ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu'r seintiau'n brysur yn cyhoeddi'r Efengyl ac yn sefydlu eglwysi ym mhob cwr o'r wlad. Yr un a gafodd y mwyaf o sylw o ddigon, wrth gwrs, yw Dewi Sant, ond un ymhlith llawer oedd hwnnw. Roedd Cybi a Beuno, Illtud a Deiniol, Padarn a Seiriol yr un mor bwysig yn y meysydd eu hunain. Trwy ymdrechion glew'r bobl hyn, fe aed â newyddion da'r Efengyl at bobl y cyfnod, ac fe sefydlwyd eglwysi, a hynny mewn cyfnod pan oedd y Gymraeg yn datblygu.

Mae'r cof am y seintiau, er mor annelwig yw'r ffeithiau pendant am y rhelyw ohonynt, yn dangos mor hir fu dylanwad y Ffydd Gristnogol ar ein cenedl. Mae'r traddodiad Cristnogol Cymraeg yn ymestyn yn ôl dros bymtheg canrif, ac mae hynny ynddo'i hun yn rhyfeddod. Y fath newid a fu yn wleidyddol, yn economaidd, yn ddiwylliannol, yn ddaeryddol, yn addysgiadol, yn athronyddol, a hyd yn oed mae'n rhaid cyfaddef yn ieithyddol ac yn grefyddol erbyn hyn, ac eto mae'r Efengyl yn dal i gael ei harddel a'i phregethu yn Gymraeg heddiw. Tueddwn i gysylltu ein Cristnogaeth Gymraeg â chyfieithu'r Beibl i'r iaith ychydig dros bedwar can mlynedd yn ôl. Ac wrth wneud hynny, fe ryfeddwn at y cyswllt hir rhwng yr iaith a'r Ffydd. Ond mae'r cyswllt yn hŷn o lawer na hynny. O'i dyddiau cynharaf, bu'r Gymraeg yn iaith y Ffydd ac yn iaith yr Efengyl. Ac er gwaethaf popeth, mae'n dal felly. Ydi, mae'n iaith cabledd a chweryl, yn iaith anghrediniaeth ac anffyddiaeth, ond mae'n dal yn iaith gras a chariad a chymod a chroes ein Harglwydd Iesu Grist.

Ac er gwaethaf popeth hefyd, mae hynny'n rhoi gobaith i ni y gall Duw eto gynnal y dystiolaeth i'w enw ymhlith ein pobl, ar dir ein gwlad, a hyd yn oed yn ein hiaith. Ni allwn gymryd hynny'n ganiataol, ac felly gweddiwn y bydd Duw o'i drugaredd yn gwneud hyn er mwyn ei enw. Ond os diogelwyd y dystiolaeth dros bymtheg canrif, onid oes pob rheswm dros gredu y gall y Brenin Mawr ei chynnal eto yn ein dyddiau ni? Ie, er gwaethaf popeth.

JOHN PRITCHARD

Cefnogaeth Canser ar gael yn Llyfrgelloedd Gwynedd

Mae gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth Cymorth Canser Macmillan newydd wedi agor yn ddiweddar mewn pedair llyfrgell ar draws de Gwynedd.

Mae'r gwasanaeth newydd hwn ar gael i unrhyw un sydd wedi eu heffeithio gan ganser, os ydych chi'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd, wedi goroesi canser neu os ydych chi'n ofalwr, ffrind neu berthynas i rywun sydd efo neu wedi dioddef o ganser.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei arwain gan Alaw Môn Thomas-Davies, Cydlynnydd Gwybodaeth a Chefnogaeth Macmillan i Gyngor Gwynedd.

Dywedodd Alaw: 'Ein prif nod yw cynnig amrywiaeth o gefnogaeth i bobl - efallai eich bod chi'n dioddef o ganser, gofalu am berthynas neu ffrind, yn ofalwr iechyd proffesiynol neu yn syml eisiau gwybod mwy am ganser.'

Cynhelir sesiynau galw heibio bob dydd Gwener ym Mhorthmadog (10:00am-12:30am) a Blaenau Ffestiniog (2:00pm-4:00pm) a bob dydd Mawrth yn Nolgellau (10:00am-12:30pm) ac Abermaw (2:00pm-4:00pm) - croeso i bawb.

Bydd Alaw Môn Thomas-Davies ar gael yn ystod y sesiynau hyn i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth yn unigol. I gysylltu gyda hi'n unionyrchol, cysylltwch ar e-bost: alawmonthomas-davies@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 07878448447.

Cyfle i ddysgu am olrhain hanes teulu

Oes gennoch chi ddiddordeb mewn olrhain hanes teulu? Bydd cyrsiau undydd ar gyfer y sawl sydd â diddordeb mewn olrhain hanes teulu yn cael eu cynnal yn Archifdy Meirionnydd, Dolgellau dan arweiniad Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd yn yr wythnosau nesaf.

Dyma gyfle i chi gael arweiniad ar y ffordd orau i fynd ati i olrhain hanes eich teulu, a chael edrych ar wahanol ffynonellau a thystiolaeth.

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros y celfyddydau:

'Mae olrhain hanes teulu wedi dod yn boblogaidd iawn yn ddiweddar gyda nifer o raglennu teledu yn canolbwyntio ar y maes. Dyma gyfle gwyh i unrhyw un sydd gan ddiddordeb gael cyngor ar y ffordd orau i fynd ati i wneud hynny. Dw i'n siwr bydd hwn yn gwrs yn hynod ddiddorol.'

Bydd sesiwn yn rhoi astudiaeth achos a sesiwn cwestiwn ac ateb yn rhoi cyfle i chwi holi'r archifyddion. Bydd y sawl sy'n mynychu yn derbyn pecyn gwybodaeth. Cost y cwrs yw £10.

Cynhelir y Cyrsiau Olrhain Hanes Teulu ar y dyddiau canlynol:

- Cwrs cyfrwng Cymraeg ar ddydd Sadwrn, 22 Chwefror 2014 am 10am yn Archifdy Meirionnydd

- Cwrs cyfrwng Saesneg ar ddydd Llun, 5 Mawrth 2014 am 10am yn Archifdy Meirionnydd: Cwrs Hanes Teulu (Saesneg).

Mae'n angenrheidiol i archebu lle ar y cyrsiau. Os am archebu lle cysylltwch â:

Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd ar 01341 424 682 neu e-bostiwch: archifdy@gwynedd.gov.uk

**GAREJ CERIS JONES**

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

**BARRYS GLASS**

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING

Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

**Blodau Racca**

PENISARWAUN

Rhodod o'r Galon
Yw Blodau

- Basgedi Planhigion
- Basgedi Crog
- Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Alwyn a Sarah Jones
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER
POB
ACHLYSUR

DEWGS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Hywel Williams as yn annog ysgolion lleol yn Arfon i geisio am wobwr Llefarydd Tŷ'r Cyffredin

Gwobr seneddol i gydnabod gwaith myfyrwyr yn y gymuned

Mae Aelod Seneddol Plaid Cymru Arfon, Hywel Williams, yn galw ar ysgolion lleol yn ei etholaeth i gymryd rhan mewn cystadleuaeth wobrwyl genedlaethol sy'n cael ei rhedeg gan Llefarydd Tŷ'r Cyffredin.

Mae Gwobr Cyngor Ysgolion y Llefarydd yn agored i bob ysgol feithrin, cynradd ac uwchradd trwy'r wlad. Yn cael ei rhedeg gan Adran Addysg y Senedd ar ran y Llefarydd, John Bercow AS, mae'r cynllun gwobrwyo yn gwahodd ysgolion neu gynghorau ysgolion i enwi prosiect sydd wedi gwneud gwahaniaeth yn eu hysgol neu gymuned. Bach neu fawr; yr hyn sy'n bwysig yw fod y prosiect wedi arwain at newid cadarnhaol.

Dywedodd Mr Williams,

"Mae hyn yn gyfle gwyh i ysgolion yn Arfon i ddangos rhai o'r prosiectau cyffrous y maent wedi eu cwblhau o fewn y gymuned leol. Ar ôl ymweld â ysgolion lleol yn Arfon, rwy'n gwybod eu bod yn gwneud gwaith arbennig o fewn yr ysgol a'r gymuned leol y maent yn rhan annatod ohoni."

Bydd ysgol neu gyngor ysgol llwyddianus yn cael eu gwobrwyo ym mhob un o'r categorïau canlynol; Oedran meithrin (4-7), Cynradd (7-11), Uwchradd (11-16) a Oedolion ifanc (16-19).

Bydd pob ysgol a fydd yn cymryd rhan yn y cynllun gwobrwyo yn derbyn tystysgrif gan Llefarydd Tŷ'r Cyffredin. Bydd y goreuon yn derbyn plac coffaol i'w hysgol. Bydd enillwyr yn cael eu gwahodd i'r Senedd i dderbyn tlws gan Llefarydd y Tŷ Cyffredin.

Ychwanegodd Mr Williams,

"Rwy'n gobeithio y bydd ysgolion Arfon yn cysidro cymryd rhan yn y cynllun yma er mwyn dathlu yr holl bethau cadarnhaol maent yn ei wneud. Mae nifer o ysgolion yn fy etholaeth yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n uno cymunedau ac mae unrhyw gymhellant sy'n hyrwyddo hyn i'w ganmol.

Rwy'n edrych ymlaen i glywed am unrhyw ysgol sy'n cymryd rhan a credaf y byddai'n wych petai ysgol o Arfon ymysg yr enillwyr. Byddaf yn ysgrifennu i ysgolion yn Arfon i'w hysbysu ynglŷn â'r cyfle yma gan obeithio cael y cyfle i groesawu disgyblion i San Steffan yn ddiweddarach yn y flwyddyn."

Gall ysgolion ymweld â www.speakersschoolcouncil.org am fwy o wybodaeth gan gynnwys cyngor ar sut i gymryd rhan. Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw Ebrill 30.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Cynorthwy-ydd Seneddol Hywel Williams AS, Alun Fôn Roberts ar 01286 672 076 / 07810 392 115 neu alun.roberts@parliament.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Menter Beicio Diogel

Mae beicwyr yng Ngwynedd wedi croesawu ymgyrch diwedddara Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd Gwynedd Môn i godi ymwybyddiaeth ymhlith holl ddefnyddwyr y ffordd i fod yn fwy ymwybodol ac yn ystyriol o'i gilydd.

Neges allweddol yr ymgyrch yw annog beicwyr i fod yn fwy gweledol ar y ffyrdd ac i godi ymwybyddiaeth gyrwyr o'r pwysigrwydd o adael o leiaf 1.5 metr o le wrth basio beicwyr.

Mae beicwyr brwd o Wynedd a Môn yn hybu'r ymgyrch hwn drwy wisgo gwasgodau llachar sydd yn dangos y neges diogelwch ffyrdd hanfodol 1.5 metr pan maent yn beicio o gwmpas ffyrdd Gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae'r gwasgodau yn dangos y neges 1.5 metr yn glir, lliwgar ac adlewyrchol i sicrhau fod y beiciwr yn weledol i holl ddefnyddwyr eraill y ffyrdd yn ystod y dydd ac mewn tywyllwch.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am ddiogelwch y ffordd:

'Fel Cyngor, rydym yn awyddus i annog mwy o bobl i feicio, nid yn unig yn eu hamser hamdden ond hefyd i fynd o A i B. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud bob dim posibl i sicrhau diogelwch beicwyr ar ffyrdd Gwynedd, gan fod ganddynt gymaint o hawl i ffordd ag unrhyw un arall. 'Gobeithiaf bydd yr ymgyrch diogelwch newydd hwn yn codi ymwybyddiaeth ymhlith gyrwyr ei bod yn bwysig i adael pellter diogel wrth basio beicwyr ar y ffordd, yn ogystal â thawelu meddyliau beicwyr eu bod yn saff ar ffyrdd Gwynedd.

'Yn hynny o beth, mae'n hefyd angen annog beicwyr i gymryd camau i sicrhau eu diogelwch personol eu hunain, megis drwy wisgo helmed a lliwiau llachar i gynyddu eu hamlygrwydd ar y ffyrdd sy'n bwysig iawn, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd hi'n tywyllu'n gynt.'

Esboniodd Kevin Williams o Lanberis ac sy'n beicio'n rheoliad yng Ngwynedd, bod amryw o gerbydau wedi ei basio heb adael gofod diogel: 'Rwy'n cefnogi'r ymgyrch 1.5 metr ac yn mawr obeithio bydd y neges hon yn ffiltro i lawr i yrwyr ac yn eu hannog i roi mwy o ofod i feicwyr wrth eu pasio ar ffyrdd Gwynedd.'

Am fwy o wybodaeth am yr ymgyrch 1.5 metr, e-bostiwrch partneriaethgm@gwynedd.gov.uk neu gallwch ffonio'r tîm diogelwch ffyrdd ar 01286 679 901.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

BWYD ANIFEILIAID BOCM • PAULS

GWAIR GWELLT a HAYLAGE

ROBERTS

HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF

Ffôn 07748692100 • (01286) 660254



Canu yn y Gwlff



Llongyfarchiadau i Alaw Henderson, Beddgwenan, Llandwrog, wyres Mrs Anne Parry, Sycharth, Preswylfa, Llanberis ar ei llwyddiant yng Ngŵyl Gerdd Gwledydd y Gwlff yn ddiweddar. Mae Alaw, sy'n ferch i Delyth a Kerry Henderson, yn byw yn y Dwyrain Canol gyda'i theulu ers dwy flynedd. Buont am flwyddyn yn Bahrain ac erbyn hyn maent yn byw yn Abu Dabi. Bu Alaw'n cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd a gynhaliwyd eleni yn Bahrain ddechrau Chwefror, ac enillodd ei chystadleuaeth canu. Golygai hynny ei bod yn cael cymryd rhan mewn cystadleuaeth arall i enillwyr y gwahanol gystadlaethau lleisiol ac offerynnol. Daeth yn ail yn honno, gyda chlod uchel gan y beirniaid, a ddeuai o Loegr. Roedd rhaid i Alaw ganu tair cân yn y gystadleuaeth hon, a dewisodd un yn Gymraeg, un yn Saesneg ac un mewn Eidaleg. Bydd y teulu'n dod adref i Landwrog ac i dŷ Nain yn Llanberis dros wyliau'r Pasg, ac edrychwn ymlaen at eu gweld unwaith eto. Llongyfarchiadau gwresog i Alaw oddi wrth ei holl ffrindiau yn Llanberis a'r fro.

Cyfeillion Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Ionawr oedd Mrs Mair Jones, Maes Padarn.

Marwolaeth Ar Ionawr Sed, yn ei chartref yn Nottingham, bu farw Mrs Heulwen Bealby, unig ferch y diweddar Mr Robert Morris a Mrs M. Morris, Olgra Teras, Llanberis, gynt. Bu yn athrawes Gwyddor Tŷ yn Nottingham a phriodi Harry Bealby yn 1951 a ganwyd iddynt dri o blant, sef Walter, Robert a Judith. Roedd Mrs Bealby yn 85 oed ac yn un o sefydlwyr y Gymdeithas Gymraeg yn Nottingham.

Bydd llawer o ddarllenwyr hŷn yr Eco yn cofio'n annwyl iawn am ei thad oedd a chysylltiad ag Ysgol Brynrefail o 1902 hyd at 1953, fel disgybl, fel athro Saesneg penigamp, ac fel dirprwy brifathro hyd at ei ymddeoliad yn 1953.

Marwolaeth Ar y 31ain o Ionawr, mewn ysbyty yn agos at ei gartref ym Mhorthcawl, bu farw Goronwy Owen, brawd i'r diweddar Rhys, William a Julia, Pant Du, Ffordd Tŷ Du, Llanberis, yn 94 mlwydd oed. Er ei fod wedi ymgartrefu o'r pentref ers nifer fawr o flynyddoedd, fe gadwodd gysylltiad agos a'i bentref genedigol drwy gyfrannu i'r Eco ac ymweld â'i bentref yn rheolaidd.

Pen-blwydd Arbennig Dymuna Gwynedd Owen (Fess), 10 Maes Derlwyn, ddiolch i bawb am yr holl gardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 yn ddiweddar.

Er Cof am Lizzie Pugh, 6 Stryd Siarlot, Llanberis, - mam a ffrind arbennig iawn a hunodd yn dawel Chwefror 25ain, 2013.

Cofio'r dyddiau dedwydd hapus,

Cofio'r cariad, cofio'r wên,

Cofio'r gofal mawr amdanom,

Hiraeth nid yw'n mynd yn hen.

Byth yn angof – Eirwen

Cymdeithas Undebol
Cafwyd noson ddiddorol iawn

yng nghwmni Mr Huw John Hughes yn Y Gymdeithas, nos Fawrth, Chwefror 11eg, yn Festri Capel Coch. Testun y sgwrs oedd "DIRGELWCH" - sut mae ambell wrthrych, neu bobl, wedi diflannu oddi ar wyneb y ddaear, a byth wedi eu darganfod.

Soniodd yn benodol am fywyd Dafydd Ellis o Pen' Nyfed, ardal Cerrigydrudion, oedd yn athro a bardd ac fel y bu iddo orfod mynd i ymladd yn y Rhyfel Mawr. Un bore darganfuwyd ei wely, yn y Gwersyll Milwrol yn Salonica, yn wag, gyda'i bapurau a'i dagiau adnabod yn dwt ar y gwely. Bu chwilio mawr amdano ond ni ddaethpwyd o hyd iddo byth. Mae yn ddirgelwch beth ddigwyddodd iddo!

Llywyddwyd y noson gan Dilys Mai Roberts a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Colin Jones.

Bydd y Gymdeithas nesaf ar nos Fawrth, Mawrth 11eg, am 7yh, byddwn yn cyfarfod yng nghartref Mr a Mrs Dafydd a Moira Ellis, Brynrefail. Cawn arddangosfa o Frodwaith a Gwaith Coed, y ddau.

Os nad ydych eisoes wedi trefnu cludiant, rhowch wybod i Dilys Mai.

Pen-blwydd Arbennig Dymuna Sandra, Bryn Tirion, Llanberis, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, anrhegion a galwadau ar achlysur ei phen-blwydd arbennig, mis Ionawr. Hefyd, dymuna Elwyn a Sandra ddiolch i bawb am y dymuniadau gorau ar dathliad eu Priodas Arian, mis Hydref y llynedd. Diolch o galon i bawb.

Diolch Wedi llawer o flynyddoedd o werthu'r Eco a phapurau newydd eraill, mae Deryl ac Eirlys wedi rhoi'r gorau i'w gwerthu. Mae ein diolch iddynt yn fawr, gan fod yr arian a dderbyniwyd drwy werthu'r Eco yn cael ei drosglwyddo'n llawn i goffrau'r Eco.

Os yr oeddech chwi yn cael eich Eco yn Y Siop Goed o'r blaen, bydd modd ichwi ei brynu'n awr yn Siop Spar neu yn Londis.

YSGOL YRRU ELIDIR
Driving School

Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG

07922121226
NEU
(01286) 882269

GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1

GWYNANT PIERCE

CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL

— **Uned 1** —
Fferm Bryn Afon
LLANRUG

(01286) 674183
07889899901

Cofio un o gyfrannwyr cynnar yr “Eco”.

Daeth y newyddion am farwolaeth Goronwy Owen ddiwedd Ionawr yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen y Bont ar Ogwr. Cynhaliwyd yr angladd ar 21ain o Chwefror. Roedd wedi ymgartrefu yn Nottage, Porthcawl ers sawl blwyddyn, ac wedi bod yn brifathro Ysgol Pont Rhyd y fen. Roedd yn wreiddiol o Lainwen, Llanberis, ac fe'i haddysgwyd yn ysgolion Dolbadarn a Brynrefail. Ysgrifennodd gyfres o erthyglau, ysgrifau a storïau i'r “Eco” yn ystod y 1980'au, a phob un yn gogleis y dychymyg. Byddai llun pin ac inc neu gartwn yn cael eu hanfon hefyd i ddarlunio digwyddiad o'r hyn a ysgrifennai amdano. Deilliai'r cyfan o'i atgofion fel plentyn a llefnyn ifanc yn ardal Llanberis, ac yr oeddent yn hynod boblogaidd gyda'r darllenwyr. O bosib fod rhai ohonoch yn cofio ysgrifau megis “Diwrnod o wanwyn” neu “Bat Harri Coed” ymhlith yr amryw a anfonwyd i'r “Eco”. Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at ei fab, Hywel a'r teulu yn ne Cymru, ac at weddill y teulu yn Llanberis.

Eirlys a Deryl

(Siop Bren!)

Yn ystod y blynyddoedd olaf hyn
pan fyddaf adre'n bydio yn Fach-Wen,
un o'm plaserau dyddiol – croesi'r llyn
am 'bentra bach Llanbêr' a'i hen Siop Bren!
Roedd yno rhywbeth gwell na'r mêl a'r gwin –
neu goffi wrth i'm godi'r 'Dyddiol Bost',
yr oedd i'r hen le naws o 'ryfedd rin',
croeso a chyfeillgarwch gwir di-fost!
Bu'r wraig a'r gwrda, ers degawdau chwim
yn gyson driw tra'n gwasanaethu'r fro –
roedd derbyn arian iddynt megis dim
wrth ochor sgwrs a stelc – a ffwr â fo!
O! fe geir eto yno de – neu fedd:
a'r ddau? Plygeiniol a haeddiannol hedd.
Norman Closs

Newid Ddaeth

Pererindod foreol a wnawn am dros ddeng mlynedd ar hugain oedd myned i lawr i'r Siop Goed yn y Stryd Fawr, Llanberis, i gael y Daily Post a'r Daily Mail. Esgus braidd oedd myned i'r siop i nôl y papurau dyddiol, myned yno yr oeddwn i gael sgwrs fer â Deryl y Siopwr, a'r hogiau a weithiai ar lwybrau yr Wyddfa. Hogiau iawn, bob amser yn llawen a John 'Rallt Goch, miliwnydd ar hanesion a digwyddiadau lleol, yn rheoli y criw. Yn wir, moddion i'r galon oedd cyfarfod â'r hogiau annwyl hyn bob bore ac eithrio y Sadwrn a'r Sul. Mwynhad o'r mwyaf gennyf oedd agor y drws cul i'r siop a, thrwy hynny, gamu i fyd hollol wahanol i rialtchw swnllyd a byddarol prysurdeb yr unfed ganrif ar hugain. Na, yn swyn y Siop Goed, cawn flas ar y cynfyd, y byd hwnnw y cefais fy magu ynddo yn Rhos Isa. Yn awyrgylch unigryw y siop teimlwn fy mod yn camu i'r gorffennol, y cyfnod nad oedd cadw i amser yn golygu nemor ddim, nad oedd prysurdeb mewn bod. Ond yn hytrach amser i sgwrsio, i gymdeithasu ac i gyfeillachu. Llwyddodd Deryl a'i briod, Eirlys, i greu awyrgylch o'r hen ddyddiau yn y siop. Gwneud hynny drwy gyfrwng arddangos hen greiriau gwerin, dychymyg byw a chynllunio gofalus. I'r cyfan yr oedd croeso cynnes yno bob amser ac fe geid amser i roi'r byd a'r betws yn ei le. I mi, yr oedd yr ymgomio yn falm i oresgyn pryderon, ofnau, hefyd yn arweiniad pendant i faterion personol. Yn y Siop Goed gyda Deryl ac Eirlys profais werth gwir gyfeillgarwch diffuant a diragrith. Yn sicr, mae fy nyled i'r ddau annwyl yn enfawr. Ond er na werthir y Post na'r Mail yn y Siop Goed mwyach, eto mae'r drysau culion ar agor led y pen. Yr un yw'r hen awyrgylch, y croeso brwd. Na, nid yw'r melinydd wedi rhoi gorau i falu, na'i briod wedi crogi y delyn ar yr helyg. Y mae'r Siop Goed ar agor o hyd a'r un yw'r dynfa i brofi y gwin a ddeil mor felys. Diolch i Deryl ac Eirlys am wasanaeth diflino tros y blynyddoedd a'r hynawsedd boreol nad â byth o fy nghof. John H. Hughes

Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwar canol yn mhob gair.

Y mis hwn:
5 gair = da; 10 gair = da iawn;
15 gair neu fwy – ardderchog.
Ateb y mis diwethaf: Berthengam

A	O	W
G	L	C
N	N	Y



Gwesty Dolbadarn

Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN


Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Ar ben arall i'r lein

Mae bron i flwyddyn er i Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad ar Bwrdd Coedwigaeth fynd i abergofiant a'r corff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, gael ei sefydlu i ymdrin â'r holl gyfrifoldebau. Cyn belled â mae ein diddordebau ni sy'n ymddiddori ym myd y pysg does dim llawer o newid i'w weld hyd yn hyn, heblaw fod rhai o'r swyddogion yr oeddym yn delio â hwy wedi ffarfelio a manteisio ar y cyfle i ymdddeol, a pob lwc iddynt. Ond yn dilyn be ddaeth i'r golwg heddiw, sef 19ed o Chwefror mewn cyfarfod o'r Grŵp Pysgodfeydd Lleol yn Nolgellau, mae arolwg ar ddyfodol deorfeydd yr awdurdod yng Nghymru wedi cael ei gwblhau. Bydd ei sylwadau ar gael yn ystod y dyddiau nesaf a bydd tri mis o gyfnod ymgynghori. Ond fel pob ymgynghoriad o'r math yma, rhyw daflu llwch i'r llygaid ydyw i gyd oherwydd, yn ôl pob golwg, mae'r penderfyniad wedi ei wneud, ac mae'n bosibilrwydd cryf mai cau fydd hanes y sefydliadau yma.

Mae'n amhosib ymhelaethu ar hyn heb gael gweld ei resymeg, ond beth fydd yr ymateb i ddeorfeydd fel yr un sy'n Crawia? Mae sibrydion fod rhai mewn awdurdod eisiau cau pob deorfa yng Nghymru, a gadael i'r pysgod gymryd eu siawns. Wel, yn y gornel fechan yma o'r wlad ble mae llygredd a difaterwch yn cyffwrdd â phob cornel o amgylchedd ein pysgodfeydd, does ond un canlyniad, sef y bydd pysgota yn diflannu yma fel difyrrwch a ffordd o fyw i lawer i un. Os na fydd pysgod yna fydd dim sgotws - digon o le i rai o dros Glawdd Offa ddod yma gyda'i canws. Mae'n reit amlwg mai dyna mae'r Cynulliad na yng Nghaerdydd eisiau ei weld. Pa lywodraeth arall, mewn difri, fuasai'n fodlon eistedd ar ei ddwylo a bodloni ar y ffaith fod un o iconau Cymru fel gwlad o gyfoeth naturiol, sef y torgoch, yn diflannu o ddyfroedd Padarn oherwydd llygredd. Heb ddeorfa i geisio ehangu'r stoc yna bydd yn ffarfel go iawn.

Ymhelaethaf ymhellach ar broblem Padarn, 'rydym yn dal i ddisgwyl canlyniadau ein achos yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru yn yr Uchel Lys. Ar un llaw maent wedi tynnu'n ôl o amddiffyn yr achos yn eu herbyn, ond maent yn defnyddio bob esgus i beidio â gweithredu'n effeithiol i roi diwedd ar yr arllwyso carthffos. Mae'n wir anodd credu be sy'n mynd ymlaen, gan fod gwybodaeth wedi dod o'r Cynulliad eu bod, ar gais Cyngor Gwynedd, yn bwriadu penodi Llyn Padarn fel safle ymdrochi oherwydd ei lanweithdra.

Yndi mae'n wir fod nifer o'r ardal yn nofio yn y llyn, ond a ydynt yn gwybod am y risg fawr maent yn ei gymryd â'i hiechyd.

Mi fuasai'r gymdeithas yn hollol gefnogol i'r dynodiad os buasai ddim carthffos yn cael ei arllwys i'r dyfroedd, ond cyngor i'r clwb yw ein bod yn trosglwyddo ein gwrthwynebiad i Gaerdydd oherwydd y problemau presennol. Mae'n sicr na fydd sylwadau'r clwb yn boblogaidd gyda rhai, ond mae iechyd yn bwysicach o lawer na chware politicaidd.



I droi at fater llawer mwy pleserus, 'rydym yn bwriadu cynnal dyddiau hyfforddi pysgota a materion cyffelyb drwy gyd weithio â Gwesty Seiont Manor, Llanrug, os bydd bopeth yn iawn cawn weld hyn yn digwydd yn ystod gwyliau'r haf. Cadwch lygad ar ein safle we www.sgll.co.uk.

Cawn weld dechrau tymor arall ar 3ydd Mawrth, gyda lefel yr afonydd yn dal yn uchel oherwydd y tywydd garw, ond heb fod yn oer felly, mae pob cyfle eleni i gael y badell allan yn go handi. Mae wedi bod yn y cwpwrdd acw yn ystod Mawrth ers blynnyddoedd, ond eleni, wel efallai bydd ffrei yn go fuan. Ble i fynd am frithyll buan, cyn belled ac rwyf i yn y cwestiwn, Y Seston Fawr a Pwll Fôn ar wastadedd Cwm y Glo fydd yn cael tro. Cofiwch un o'r pryfetach cyntaf ar y dŵr yw'r hen un bach llwyd 'na, ac i'w efelychu defnyddiwch bluen Llwyd Corff Main, tua amser cinio yw'r amser gorau, sef amser cynhesaf y diwrnod.

Ers rhai blynnyddoedd dwi 'di bod wrthi yn casglu tipyn o etifeddiaeth pysgota'r fro, ac 'rwyf erbyn heddiw wedi dod â pethau at ei gilydd. Mae yn eithriadol bwysig, wel i ni fel 'sgotws beth bynnag, nad yw'r holl wybodaeth, celfi ac atgofion ddim yn mynd ar goll, felly efallai os bydd modd rhyw dro cael cyhoeddiad yna o bosib bydd fy ngwaith i ar ben. Diolch o galon i bawb sydd wedi rhannu eu gwybodaeth, lluniau, straeon a'r celfi â mi. Wrth gwrs mae llawer mwy o gwmpas a buaswn yn ddiolchgar dros ben o gael golwg a thynnu rhyw lun neu ddau. Y pethau diweddaraf a ddaeth i law oedd gan Clifford Thomas, Y Felinheli ond gynt o Fethel, wrth gwrs, a hynny oedd bocs o blu eog wedi eu clymu gan Now 'bach' Roberts, Llanrug. 'Roedd Now yn glymwr plu heb ei ail.

Roeddwn yn ei adnabod gan ei fod wedi bod yn byw yn Neiniolen am flynyddoedd, a byddwn yn ei weld yn o aml yn dilyn ei fudo yn ôl i Lanrug. Yn y Penbont byddwn yn ei weld ar amser pa oeddwn yn dechrau clymu plu fy hun. Fel clymwr dibrofiad byddwn yn hoff o roi pennau gwahanol liw ar fy mhlu. 'Roeddwn yn teimlo yn reit freintiedig i Now ofyn imi,

'Dangos be ti' di glymu, Cae'r Tŷ.' Pan welodd y pennau pob lliw dywedodd,

'Pa bryd welais ti bry â pen coch ganddo, plu brithyll - pen du bob tro, cofia.' A phen du sydd ganddynt hyd heddiw. (oes gan rhywun lun o Now?)

A dyna ni am y tro.

Huw Price Hughes - neu Cae'r Tŷ i'r rhai sy'n gwybod!

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonius.co.uk

Caffi Caban

ar agor

9 y bore tan 4 y pnaun- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad




Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffi a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

CYF

CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN NEWYDDION Y CYNLLUN



Bydd 2014 yn flwyddyn arswydus a phrysur i'r Cynllun Cerdded a Darganfod gyda cartref newydd iddo yn agor yn Llanberis. Edrychwch allan am y diweddaraf yn rhifynnau'r Eco dros y Gwanwyn. Yn ardal yr Eco, mae'r cynllun ar fin cyhoeddi tri map newydd, sef 'Llyn Padarn', 'Llanberis a Nant Peris' a 'Y Waunfawr'. Fel mapiau Llanddeiniolen, Llanrug ac ati byddant yn adrodd hanesion yr ardal a mapio'r llwybrau i chi fynd i gerdded a darganfod.

Nawr hefyd, mae cyfle i'r cyhoedd gyfrannu yn uniongyrchol i'r Cynllun drwy fynd i'n tudalen 'Facebook' newydd sef 'Cerdded a Darganfod / Walk and Discover'. Dyma nid yn unig gyfle i

gadw i fynu â'r newyddion diweddaraf ynglŷn â'r cynllun (a'r holl weithgareddau) ond cyfle hefyd i rannu eich hen luniau, hanesion neu hyd yn oed fforwm i chi gychwyn ar brosiectau ymchwilio hanesion lleol eich hunain a'u rhannu. Hefyd, gallwch cysylltu â 'garmel@fsmail.net' i dderbyn rhaglenni y teithiau cerdded drwy e-bost bob mis.

Gwelwch hefyd ein bod wedi ein comisiynnu i drefnu teithiau cerdded i Uned Iaith Cyngor Gwynedd. Eisioes rydym yn cydweithio gyda CADW i greu teithiau cerdded ar gyfer y Gwanwyn. Cewch rhagor o fanylion yn yr Eco maes o law.

TEITHIAU CERDDED MAWRTH 2014

IAU 13.3.14 2yp
LLANBERIS: CHWEDLAU AC YSBRYDION (2 milltir)
CYCHWYN: MYNYDD GWEFRU, LLANBERIS. EITHA HAWDD.

MERCHER 19.3.14 2yp
BETHESDA A COED Y PARC: O CYNHANES I'R CHWARELI (2½ milltir)
CYCHWYN: SPAR, BETHESDA. EITHA HAWDD OND ANGEN SGIDIE CERDDED.

MERCHER 26.3.14 2yp
FFYNNON CEGIN ARTHUR: YR YMCHWIL DIWED-DARAF (2½ milltir)
CYCHWYN: EGLWYS PENISARWAUN.
EITHA HAWDD OND ANGEN SGIDIE CERDDED

TEITHIAU YCHWANEGOL AR Y CYD AG UNED IAITH CYNGOR GWYNEDD
DEWCH I YMARFER EICH CYMRAEG

SUL 2.3.14 1.30yp
LLANBERIS: CWM BRWYNOG-Y PENTREF COLL (3 milltir)
CYCHWYN: MYNYDD GWEFRU.
BRYNIOG - ANGEN SGIDIE CERDDED.

SUL 9.3.14 1.30yp
LLANBERIS: HELFA DRYSOR FFOTOGRAFFEG (1½ milltir)
CYCHWYN: MYNYDD GWEFRU. HAWDD.

MAE CROESO I BAWB.

Chwaraeon Cofio:

Daw A'i Git Yn Wyth Deg Oed

Mae'n nos Wener a'r un fu'r drefn i Huw Davies, Bethel – ond Carneddi, Bethesda yn wreiddiol – ers 1958. Llnau yr esgidiau pêl-droed, plygu'r kit a chael y llyfr bach du neu'n hwyrach y cardiau melyn a choch yn barod. Ie, ac yntau eleni yn 80 oed, mae Huw yn dal i ddyfarnu neu redeg y llinell. 56 tymor di-dor ar hyd meysydd Gogledd Cymru. O feddwl, yn rhai o'r tymhorau buasai dros 100 gêm, pwy wŷr beth yw'r cyfanswm.

Dechrau rhyfeddol. Yn y gwaelod – neu yn y DE, beth bynnag – ar Ynysoedd y Falklands (Malvinas) yn 1952. Roedd Huw yn y llynges ar y llong warchodol HMS St. Austel Bay. Dyfarnodd gêm rhwng tîm y llong a thîm Port Stanley. Pan ddaeth yr Archentwyr i'r ynysoedd adeg y rhyfel, claddwyd y cae o dan faes awyr milwrol, a ddaeth yn darged i'w fomio.

Dechreuodd ddyfarnu yn lleol yn 1958, a'i gêm gyntaf oedd yng nghyngair Môn rhwng Llangoed(1) a Brynsiencyn(4). Fel y deallais mae gan Huw gof rhyfeddol. O fewn dim, cael dyfarnu yn Nghyngair y Welsh League oedd yn gref iawn yr adeg hynny. Caergybi, Tommy Welsh a dau neu dri Gwyddel, tîm Tommmy Jones ym Mhwlheli, ac Amaturiaid Porthmadog y brodyr Gruffydd, McCarter, J.O. Williams.

Oes aur y 60a'u wedyn, ac nid yn unig chwaraewyr da fel Mel Charles, ond hefyd rheolwyr a chadeiryddion lliwgar. Tommy 'Sgram' Jones yn Besda, Walter Williams ym Mhenmaenmawr a Freddie Pye yn Nantlle. Gwelodd Huw dylanwad Pye. Dyma gyfnod dod a'r chwaraewyr 'o ffwrdd' i'r Gogledd. Cyfnod y torfeydd.

Cyfnod ddi-lymanwyr di-duedd hefyd. Pob clwb a'i lumanwr ei hun. Sawl Wali Tomos, mae'n siwr. Cofia Huw am lumanwr Caernarfon, y diweddar Mc Naughtly. Chwifiai ef dywel nid lluman! Barn Huw am y cyfnod oedd fod sgiliau y chwaraewyr yn well, ond bod ffitrwydd chwaraewyr presennol yn well. Yr hen gêm yn fwy corfforol, ond arafach, felly.

Mae record Huw fel dyfarnwr yn unigryw. Dyfarnodd rownd derfynnol pob un o gwpanau Cynghreiriau Arfon a Môn. Ar lefel Gogledd Cymru, y Gwpan Iau deirgwaith, Cwpan Cookson ac hefyd Cwpan Her y Gogledd. Gêm dda oedd honno rhwng Bae Colwyn a thîm Nantlle dan reolaeth Freddie Pye o flaen 6,000 ar Ffordd Farrar. Hefyd bu'n un o'r swyddogion mewn tair gem ryngwladol -18 Cymru yn erbyn yr Alban, Iwerddon a'r Swistir. Tipyn o record.

Un newid mawr erbyn heddiw yw'r cynnydd mewn 'dissent', y diffyg parch. Teimlai Huw y gallai'r clybiau wneud mwy i wella'r sefyllfa. Y clybiau yn aml sy'n talu'r dirwyon.



Mae sawl stori gan Huw. Dyfynaf un neu ddwy.

Y gêm anoddaf, neu'n sicr yr un ddenodd sylw'r wasg. Llandudno v Nantlle yn ystod cyfnod Orig! Se no mor! Huw ar fin gyrru Orig o'r cae am dacl erchyll. "Alli di ddim", meddai Orig, "edrych tu ôl i ti". Yr oedd pawb yn ymladd. Penderfyniad Huw oedd danfon y ddau dim oddi ar y maes. Ymchwiliad o flaen yr F.A. a'r teyrn Herbert Powell. Orig yn euog, a £50 o ffein. Dyma reswm y tudalen wâg yn hunan gofiant Orig ble mae'n rhoi ei farn ar y Welsh F.A.

Yna camgymeriad y cyhoeddwr ar Ffordd Farrar. Huw ar y llinell gyda'r lluman FELYN yn y gêm derfynol rhwng Porthmadog a Niwbwrch yng Nghwpan Amatur y Gogledd. Port yn ennill 2-1 oherwydd cic o'r smotyn hwyr ddyfarnwyd gan Huw. Yr oedd y cyhoeddwr wedi dweud mai'r lliman GOCH oedd gan Huw. Y creadur hwnnw, go iawn, oedd y Rev. Evans o Fethesda. Pob tro yr ai Huw i ddyfarnu yn Niwbwrch yr un oedd cwyn y dorf. "Mae'r blydi gweinidog hefo ni eto".

Ond mae'n diolch ni hefyd yn lleol. Ers sawl blwyddyn bu Huw yn ffyddlon iawn i ddyfarnu gemau ysgolion, colegau ac yn diweddar y cynnydd yn gemau y merched.

Eisioes y tymor yma – yn 80 oed – mae wedi cymeryd rhan mewn 40 gêm. Mae galw o hyd am ei wasanaeth a'i brofiad.

Pen blwydd hapus Huw, a diolch am flynyddoedd o wasanaeth yn y maes ble mae'n hawdd gweld bai, ond ble mae llai yn barod i roi o'u hamser i gefnogi'r gêm. Diolch hefyd am y sgwrs a'r banad. Mae'n nos Wener unwaith eto!



dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

IWERDDON 26 CYMRU 3

Rhoi'r esgus, dros O'driscoll
oedd y ffeit, rhyw agwedd ffôl.
Ef y llew ymysg Llewod,
seren byth yn siwr yw'n B.O.D.

Deuai'r coch yn frwd i'r cae
â'u hergwd, ffurfio argae
i oddefllif y Gwyddel,
“codi'n pen, rhaid cadw'n pêl”.
Mae eu dull o rŷm a dawn
yn gyfoes, mae yn gyfiawn
â North a'i rediad nerthol
'dime goch' i'r dim am gôl.

Bu anhap, nid ar bapur
ennillir gêm, llorio gwŷr.
Mae tacteg Cymru'n gwegian
nid yw'r gwŷr yn codi'r gân.
Hwy'r medrus, ond gwŷr meidrol
y gwŷr gwyrrd sy'n sgorio'r gôl.

Llu ein draig sy'n colli'n drwm
y stid sy'n tanio'r stadiwm;
y dacl, y bas, petasai?
a thiwn rwydd yw Athenry.
Cefnwn yn haid, cofiwn hon
i'r Gael daeth nerth o'r galon.

RHEDEG MYNYDD

Na, fu fawr o redeg ar fynyddoedd yn ystod y mis gwlyb a stormus a aeth heibio, ond mentrodd rhai o redwyr y fro i gystadleuthau traws gwlad a rasys ffyrdd. Llongyfarchiadau i Rob Samuel (Llanrug) a Mathew Roberts (Llanberis) ar ddod yn gyntaf ac ail yn Ras 10cilomedr Nick Beer o amgylch y Gogarth yn Llandudno, a hynny er gorfod ymladd i ddannedd y gwynt o amgylch y pegwn. Yn Ras Hanner Marathon Wrecsam daeth Arwel Lewis (Bethel) yn bencampwr gogledd Cymru yn yr adran dros 55 oed. Dau arall o'r fro fu'n cystadlu oedd Dyfed a Rhian Thomas (Llanrug). Ni allai yr un o'r tri fodloni gormod ar eu hamser, oherwydd dipyn o draed moch fu'r gystadleuaeth, gyda'r cwrs wedi ei gam-fesur o hanner milltir a mwy yn ormod, a chryn hanner cant o redwyr wedi eu hanfon ar hyd y ffordd anghywir ar dddechrau'r ras – ond o leiaf, roedd yn sych a chawsant dorth o fara brith yn wobrl!

Mae'r tymor traws gwlad yn dirwyn i ben, a daeth Maggie Oliver (Dinorwig) yn bencampwraig merched dros 65 oed gogledd Cymru. Roedd Arwel Lewis yn ail dros 55 oed yn yr un gystadleuaeth. Daeth y llwyddiannau iddynt yn dilyn cystadlu mewn o leiaf bedair ras traws gwlad allan o chwech yng nghynghrair gogledd Cymru dros fisoedd y gaeaf.

Cynhaliwyd ras fynydd gyntaf y tymor o Fferm Moelyci ger Tregarth y Sadwrn diwethaf. Roedd 115 o redwyr yn cystadlu yn y brif ras i gopa Moelyci ac yn ôl. Yr enillwr lleol oedd: 1af Matthew Roberts, Llanberis. (Llun ar y dde).

Mae mwy o rasys mynydd lleol yn ystod mis Mawrth, sef y Pipe Dream, Dolgarrog ar y 1af, Moel Tryfan, Rhosgadfan ar yr 8fed, a'r gyntaf o fewn bro'r “Eco” ar yr 16eg, sef Bwlch Maesgwm. Bydd yn cychwyn o Gaffi Penceunant, Llanberis am 11.00 y bore, gyda'r rhedwyr yn croesi Cwm Brwynog a dilyn Llwybr Maesgwm i'r Bwlch cyn troi'n ôl am adra. Taith o 10 cilomedr.

Yn y rhifyn nesaf cewch wybodaeth am y llu o rasys mynydd sy'n eich aros dros fisoedd y gwanwyn.

CEFNOGWR

I'r un lle pob Sadwrn llwm, – rhoes ei bunt
dros y bois drwy'r hirlwm.
Un o'r cant, gwaed timau'r cwm,
ni wêl hwn y Mileniwm.

Yr englyn uchod i'r ‘Cefnogwr’ oedd ymgais tim Llanrug ar gyfres y Talwrn yn ddiweddar. Yn sicr, mae'n adlewyrchu y sefyllfa ym myd ein timau pêl-droed lleol yn ystod y tymhorau diweddar. Mae'r dorf ar Eithin Duon a Ffordd Padarn yn cymharu'n ffafriol gyda thimau cyffelyb led-led y Gogledd. Yn wir mae rhai gemau darbi a chwpan diweddar yn creu embaras i sawl tim yn ein huwch gynghrair genedlaethol. Mae awgrym yn yr englyn am deyrngarwch y ‘criw ffyddlon’. Mae'r ‘un o'r cant’ yn fwriadol fwys, yn cyfeirio nid yn unig at faint y dorf ond hefyd at eu cyfraniad arianol mewn sawl ‘clwb cant’ a raffl. Yn y linell olaf nodir hefyd mai anamal gwelir y ffyddlon yn mentro lawr i'r gemau mawr yn y stadiwm mawr. Efallai fod cost neu'r teledu yn elfen o hyn, ond yn sicr maent yn cefnogi'r timau cenedlaethol. Hyn oedd bwrdd sgwrs gefais gyda chriw o Bontypridd ac ardal Rhydaman draw yn y gwesty yn Nulyn yn ddiweddar. Dau o gadarnleoedd y bêl-hirgron wrth gwrs, y naill yn nalgylch Gleision Caerdydd a'r llall yn nalgylch Y Sgarlets. Rhyw syniad besimistaidd deimlwn o sgwrs y ddwy garfan.

Yn ddiarmheuol roedd cael timau pêl-droed Caerdydd ac Abertawe yn yr uwch gynghrair yn creu problemau. Gyda bron i 50 000 yn mynychu y gemau cartref y ddau glwb roedd her fasnachol i'r clybiau rygbi. Roedd y prisiau hefyd yn ffactor, rhyw £30 i'r pêl-droed ac £20 i'r rygbi. Y gŵyn fwyaf oedd dirywiad yn safon y rygbi ranbarthol, a cholli'r prif chwaraewyr dramor. Yr oedd dull y chwarae hefyd yn ddi-fflach. A hynny, yn y gynghrair wannaf broffesiynol ym Mhrydain. I'w cymharu â thaleithau Iwerddon roedd Cymru a'r Alban yn eilradd iawn.

Gyda rhanbarth y Gleision yn amddifadu'r ‘cymoedd’ – ar wahan i ‘ddwyn’ yr hyfforddwyr, yn amlwg roedd cryn anniddigrwydd. Teimlent fod dirywiad pendant yn y berthynas rhwng yr Undeb a'r rhanbarthau.

Yr hyn oedd yn galonogol i mi oedd eu diddordeb yn nhyfiant safon y gêm yn y Gogledd. Drwy'r teledu roeddent yn ymwybodol o'r gefnogaeth ryfeddol i'r tim dan 20 genedlaethol, ac yn wir gyda'r gogleddwyr bellach yn cyfrannu aelodau i'r tim. Rhyfeddu hefyd at y torfeydd teilwng oedd yn dod i wyltio tim RGC. O gofio anifadrwydd rhanbarth y Sgarlets o adain ogleddol eu rhanbarth dros y blynyddoedd, roedd hyn yn bluen yn het ni'r Gogs. Tybed a welir Rhanbarth y Gogledd rhyw ddydd?

Ond, y prif bwynt oedd serch gwendidau y rhanbarthau, roedd eu teyrngarwch i'r Tim Cenedlaethol yn gadarn. Tybed y pery hyn os daw diffyg llwyddiant. Bydd cryn bwysau ar griw Gatland yng Nghwpan y Byd y flwyddyn nesaf. Y mae rygbi proffesiynol Cymru ar groesffordd yn bendant. Y mae'n amser i'r timau dalu yn ôl mewn perfformiad y teyrngarwch a ddangosir gan y cefnogwyr ffyddlon.



Chwaraeon

Llwyddiant Llanrug.



Llongyfarchiadau i dim pel-droed Llanrug ar ennill brwydr galed ar Gae Eithin Duon a sicrhau lle yn rownd gyn-derfynol Tlws FA Cymru. Cafodd y gêm gyntaf yn erbyn Nomadiaid Cei Conna ei gohirio oherwydd y tywydd, a dim ond cael a chael oedd hi i chwarae'r ail gêm neu ildio mantais cartref.



Roedd hi'n fwy o frwydr na'r disgwyl; yn llythrennol felly, gyda dau chwaraewr o dim y Nomadiaid yn cael cerdyn coch, Llanrug yn ennill dwy gic o'r smotyn, ac yn camu ymlaen i'r rownd gyn-derfynol o dair gôl i ddwy.

Penrhyndeudraeth fydd eu gwrthwynebwyr.

Ysgol Ddrud Yw Ysgol Profiad



Os yw tîm pel-droed Llanrug yn taro'r rhwyd yn gyson, nid felly eu cyfoedion yn nhim pêl-rwyd y pentref. Gyda deuparth o'r gemau wedi eu chwarae mae'r tîm ar waelod adran un cynghrair Penygroes a'r cylch. Un peth sy'n amlwg, mai dyma un o'r tîmau ieuengaf yn y gynghrair. Maent yn y dwr twfn go iawn. Efallai mai da o beth fuasai disgyn i'r ail-adran a chodi hyder ar y lefel hynny. Yn sicr, nid oes pall are eu brwdfrydedd. Yn nifer o'r gemau mae'r sgor yn agos ar yr egwyl, yna mae profiad y gwrthwynebwyr yn cael ei amlygu yn yr ail hanner.

Mae aelodau'r garfan o 12 yn gymysgedd o ddisgyblion ysgolion Brynrefail, Tryfan a David Hughes. Mae dwy ohonnynt ym ML. 10, felly dipyn iau na'u gwrthwynebwyr.

Ers y tymor diwethaf colodd y garfan dair chwaraewraig brofiadol a aeth i ffwrdd i'r coleg. Dyna fydd hanes rhai o'r garfan bresennol hefyd yn ystod y ddau dymor nesaf.

Serch hynny, mae'r genethod yn mynnu cario ymlaen. Os a diddordeb, gellir cysylltu ag unrhyw un o'r garfan. Chwaraeir y gemau i gyd ym Mhlas Sulyn, Penygroes, y brif adran ar nos Fercher, a'r ail adran ar nos Fawrth.

Teitlau Dan Do i Anya

Ar ôl cael ei dyfarnu yn athletwraig dan 11 oed y flwyddyn 2013 gan ei chlwb mae'r sbrintiwr ifanc, Anya Williams, 11 oed o Lanrug wedi cael dechrau da i'r tymor athletau 2014.

Yn y Pencampwriaeth Dan Do Cymru cyntaf yn y Ganolfan Dan Do Genedlaethol yng Nghaerdydd, ar ddiwedd mis Ionawr, dim ond colli allan o drwch blewyn (0.02 eiliad!) am le yn y rownd derfynol i Ferched Dan 13 yn y gamp 60m wnaeth hi. Fodd bynnag, daeth adref yn fodlon gan wybod mai hi oedd yr unig ferch o flwyddyn 6 i redeg o dan 9 eiliad yn y gamp 60m, a hefyd mae wedi cyflawni amser gorau personol newydd yn y gamp 200m.

Yr wythnos ganlynol defnyddiodd yr athletwraig clwb Trac a Maes Menai y profiad gwerthfawr a gafwyd yng Nghaerdydd i hawlio'r teitlau Pencampwriaeth Dan Do Rhanbarthol Gogledd Cymru yn y gamp 60m a Shot, yn ogystal ac ychwanegu Medal Arian yn y gamp naid hir yng Nghei Connah.

Gall Anya nawr edrych ymlaen gyda rhywfaint o hyder i gystadlu yn erbyn merched blwyddyn 7 yn y tymor trac awyr agored sydd ar y gweill yn y gwanwyn.

